# Y DDOLEN

Rhifyn 469 | Papur Bro Ystwyth ac Wyre | Ebrill 2021 60c


## Enillydd Cadair yr Eisteddfod




Eryl Rees a enillodd gadair arbennig Eisteddfod Y Ddolen.

## Yn ôl yn yr ysgol



Blwyddyn 6, Dosbarth Tryweryn, Ysgol Myfenydd, Llanrhystud, yn falch o fod nôl o'r diwedd.



Rhai o ddisgyblion dosbarth 2 Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd, yn hapus i fod nôl yn yr ysgol.



Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Llangwyryfon yn eu dillad Cymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi.

RHIF 469 EBRILL 2021
SEFYDLWYD MEDI 1978

y.ddolen@gmail.com

Llywydd
**Mair Hughes**, Greenmeadow, Trefenter (01974 272612)

Cadeirydd
**Gethin Rhys**, Gelli Aur, Cwrt y Cadno, Llanilar (01974 241062)

Is-Gadeirydd
**Andrew Hawke**, Collen, Cwrt y Cadno, Llanilar (01974 241745)

Panel Golygyddol
Elin ap Hywel
Angharad Evans
Enfys Evans
Andrew Hawke
Mair Hughes
Elen Lewis
Edgar Morgan
Eilian Rosser-Lloyd
Hywel Llŷr Jenkins
Gethin Rhys

Teipyddion
**Siân Evans**, Ger-y-llan, Llanddeiniol SY23 5DT
**Sandra Jenkins**, Pant yr ŵyn, Trefenter SY23 4HU (01974 272261)

Ysgrifennydd
**Hawys Hughes**, Dolgwybedin, Llanafan, Aberystwyth. SY23 4AX (01974 261221)

Trysorydd/Tanysgrifio
**Rhian Thomas**, 20 Crugyn Dimai, Rhydyfelin, SY23 4PR (01970 611691)

Swyddog Hysbysebion
**Wil Davies**, Porth Penrhyn, Capel Seion SY23 4EE (01970 880495)

Trefnydd Cyfeillion Y Ddolen
**Eirwyn Evans**, Hafan, Llanddeiniol SY23 5DT (01974 202287)

**Cysodwyd gan**: Elgan Griffiths
**Golygyddion y mis**: Elen Lewis, Eilian Rosser-Lloyd ac Andrew Hawke

Y RHIFYN NESAF:
**Dyddiad cau ar gyfer deunydd**: 14 Ebrill
**Yn y siopau**: 24 Ebrill

Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

CYMRAEG

Noddir Y DDOLEN gan Gyngor Sir Ceredigion

# Neges y Pasg

Un peth rydw i wir wedi'i golli yn ystod y cyfnod clo yw canu emynau gyda'n gilydd yn yr Eglwys. Y Pasg diwethaf, nid oeddem yn gallu bod yn yr Eglwys o gwbl. O leiaf eleni, rydym yn gallu bod yn ein Heglwys, ond mae'n anhebygol iawn y byddwn yn cael canu. Ac rydw i wir yn gweld eisiau y canu. Yn enwedig gyda'r Pasg ar y gorwel. Mae gan ddau brif ddigwyddiad y Pasg, sef marwolaeth Iesu ar y Groes a'i atgyfodiad o'r bedd, emynau mor dda i adrodd y straeon.

Mae un o fy hoff emynau am y Groes gan Isaac Watts (Cyfieithiad William Williams, Pantycelyn). Mae'r pennill cyntaf yn dweud hyn:

> Wrth edrych Iesu, ar dy Groes,
> A meddwl dyfnder d'angau loes,
> Pryd hyn dibrisio'r wyf y byd,
> A'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

Yna un o fy hoff emynau am yr atgyfodiad yw 'Crist a orchfygodd' (cyfiethiad O. M. Lloyd). Dywed y Corws hyn:

> Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
> Cododd ein Gwaredwr,
> Daeth o'r rhwymau'n rhydd.

Geiriau gwych gydag alawon gwych. Os na allwn ni ganu'r emynau hyn gyda'n gilydd adeg y Pasg – efallai y gwnaf ganu unawd!! (Mae hyn yn gyfreithlon!) Fy Eglwysi – fe'ch rhybuddiwyd!!!

**Parch Julian Smith**

*Dyfyniad y mis*

Ceir dyfyniad y mis gan **Matthew Hughes**, Capel Seion:

*'Gorau byw, cyd-fyw.'*

# Diolch

Cyngor Cymuned Llangwyryfon: **£150**
Cyngor Cymuned Llanilar: **£100**
Cyngor Bro Trawsgoed: **£150**
Cyngor Cymuned Llanfarian **£100**
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: **£150** tuag at yr Eisteddfod

Cyfeillion Y Ddolen: **£1,000**

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Cyhoeddir Y DDOLEN yn fisol gan Gymdeithas Y DDOLEN gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Argraffwyd gan Y Lolfa, Tal-y-bont, Ceredigion. Cyfeirir pob gohebiaeth at yr Ysgrifennydd. Ni ellir gwarantu cynnwys unrhyw ddeunydd a anfonir i'w gyhoeddi yn Y DDOLEN na derbyn cyfrifoldeb am ei ddychwelyd.

# Golygyddol

Wrth i ni edrych ymlaen at y Pasg a chael hoe haeddiannol o Zoom a Teams, mae arwyddion gobeithiol ar y gorwel o'r diwedd. Mae'r plant wedi dechrau mynd yn ôl i'r ysgol – a rhai yn ôl yn barod – a'r rhan fwyaf o'r bobl hŷn a'r rhai bregus wedi cael eu brechu'n barod diolch i'r timau prysur sy'n gweithio mor galed yn y canolfannau brechu. Ni fydd pethau'n 'normal' am amser hir eto, mae'n siŵr, ond o leiaf mae gobaith nawr y bydd pethau'n dechrau gwella a chyfle i'r busnesau lleol sydd wedi gorfod cau agor eu drysau unwaith eto.

Rhywbeth arall sydd wedi dod yn ei ôl yw Eisteddfod Y DDOLEN, sydd heb ei chynnal ers amser maith. Mae llawer o bobl wedi cystadlu, gan gynnwys llawer o bobl ifanc. Gwelir ffrwyth eu llafur yng nghanol y papur y mis hwn ac am rai misoedd i ddod. Diolch i bawb a gystadlodd ac i'r beirniaid prysur. Pasg Hapus i bawb!

## Y DDOLEN

Prynwch Y Ddolen yn y siopau lleol hyn:

| LLEOLIAD | GWERTHWR |
|---|---|
| Aberaeron | Siop Lyfrau Aeron |
| Aberystwyth | Inc |
| Aberystwyth | Siop y Pethe |
| Aberystwyth | Y Llyfyrgell Gen. |
| Blaenplwyf | Siop y Parc |
| Cross Inn | Swyddfa'r Post |
| Cilcennin | Garej y Groesffordd |
| Llanfarian | Siop |
| Llanfihangel y Creuddyn | Ffarmers |
| Llangwyryfon | Siop |
| Llanilar | Siop |
| Llanon | Spar |
| Llanrhystud | Swyddfa Post |
| Penparcau | Spar |
| Penrhyn-coch | Garej Tŷ Mawr |
| Ponterwyd | Garej Rheidol |
| Tregaron | Caron Stores |



# Llanilar

Gohebydd: Beti Griffiths, Lleifior, Cwm Aur; Iola Alban

**Offeiriad Newydd**

Braf yw cael croesawu'r Parch. Alun Evans a'i briod, Y Parch. Rebecca (Becky) Evans yma i Lanilar. Maent eisoes yn byw yn y Ficerdy ers diwedd mis Ionawr. Mae Alun a chyfrifoldeb ar hyn o bryd am Eglwysi Llanilar a Gwnnws sy'n perthyn i Ardal Weinidogaethol Leol (AWL) Bro Wyre, ond mae'n disgwyl y bydd rhagor o eglwysi dan ei adain yn y dyfodol agos. Mae Becky yn aelod o dîm gweinidogaethol AWL Bro Aberystwyth.

Brodor o Ddoc Penfro yw Alun: gŵr ifanc ysgolheigaidd a brwdfrydig sydd, erbyn hyn, yn hen gyfarwydd â gogledd Ceredigion gan iddo dderbyn ei radd gyntaf mewn Hanes a Mathemateg o Brifysgol Aberystwyth. Yn ddiweddarach, cafodd ei anrhydeddu â gradd uwch; M.Th. mewn Hanes Eglwysig o Brifysgol Llanbed. Dilynodd gwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth ac mae ganddo brofiad fel athro ysgol. Wedi iddo benderfynu mynd mewn am yr Offeiriadaeth derbyniodd ei hyfforddiant ar gyfer Urddau Sanctaidd yng Ngholeg San Mihangel, Llandaf. Yno, enillodd Ddiploma i Raddedigion mewn Diwinyddiaeth. Ar hyn o bryd mae'n astudio tuag at Ddoethuriaeth fydd yn seiliedig ar un o lyfrau'r Hen Destament.

Gwasanaethodd mewn nifer o eglwysi yn Esgobaeth Tŷ Ddewi cyn cael ei benodi yn Offeiriad â gofal am eglwysi Llanilar a Gwnnws. Bu'n gurad yn Hwlffordd, yna yn gurad ac yn ficer yn AWL Bro Padarn gan wasanaethu'n bennaf yn eglwysi Llandre, Llangorwen, Borth, Eglwysfach a Llancynfelin. Yn ei amser hamdden mae'n hoff o ganu, darllen a cherdded.

Oherwydd y pandemig a'r 'cloi lawr' a fu ers mis Rhagfyr y llynedd, nid ydym wedi cael cyfle i weld llawer o Alun a Becky yn gyhoeddus gan fod eglwysi Llanilar a Gwnnws wedi bod ar gau. Serch hynny, mae Alun wedi sicrhau fod yna wasanaeth ar lein ar gael bob Sul i aelodau sydd â'r cyfarpar i'w dderbyn. Edrychwn ymlaen at y dydd pan fydd yr eglwysi'n ailagor i addoliad cyhoeddus a phan ddigwydd hynny, da gwybod fod gennym fugail wrth y llyw.



Ficer newydd Eglwys Ilar Sant, Llanilar, Y Parch. Alun Evans CertHE, BA, MTh, PGCE, PGDip.

Dymunwn y gorau i'r ddau fel offeiriaid gan obeithio y byddant yn teimlo'n gartrefol yn ein plith yma yn Llanilar. Bydded pob bendith ar Weinidogaeth y ddau.

**Sêr y rhaglen 'Ffermio'**

Llongyfarchiadau i Irwel Evans, Llwynhywel a'i ferch Esyllt ar eu llwyddiant diweddar ym myd y gwartheg. Erbyn hyn maent yn arloesi llawer gyda'r gwartheg byrgorn ac wedi profi llwyddiant ysgubol i fyny yn Stirling yn yr Alban wrth ennill y bencampwriaeth. Gwelsom hwy yn cael eu cyf-weld ar y rhaglen 'Ffermio' yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddynt yn y dyfodol.

**Ar y Teledu**

Braf gweld Julie Roberts, Talar Deg ar y teledu yn ddiweddar ar y rhaglen 'Am Dro'.Y daith a ddewisodd oedd 'Plas yr Hafod' ac er nad oedd y tywydd yn ffafriol fe gyflwynodd inni ychydig o hanes cyfoethog y Teulu Johnes. Llongyfarchiadau iddi!

**Carmel**

*Colli aelod*

Mae hi'n drist gorfod cofnodi marwolaeth un o'n haelodau hynaf yn ddiweddar. O fewn tair wythnos i fod yn 92 oed bu farw Miss Jennie Davies, 8 Gwarfelin yn Ysbyty Bronglais wedi cyfnod byr yno. Rydym yn cydymdeimlo â'i chwaer a'i brawd yng nghyfraith yng Nghwmbyr, Lledrod, ac â'r teuluoedd yn Ngorswgan, Ffosbompren a Bryn Madog. Trefnwyd i'r angladd fod yn breifat yn unol â'r cyfyngiadau presennol.

*Anfon cofion*

Rydyn ni'n anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mrs Llinos Griffiths, Blaengader, sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais am gyfnod byr ond yn awr wedi cael dychwelyd adref. Rydyn ni'n hyderus y byddwn yn clywed ei bod yn dal i gryfhau wedi dod adref.

Rydyn ni hefyd yn dal i gofio am Miss Ann Evans, Glynwern sydd yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Bronglais.

# Blaenplwyf

**Llongyfarchiadau**

I Tom a Margaret Dolphin, Glennydd ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt (60 mlynedd) ar 29 Ebrill. Priodwyd y ddau yng Nghapel Blaenplwyf gan y Parch Dafydd Jones ac maent wedi byw yn yr ardal dros y cyfnod cyflawn. Ymlaen at y Platinwm (70)! Pen blwydd hapus i Margaret hefyd ar yr un dyddiad.

# Llanddeiniol

**Llongyfarchiadau**

Mae Des a Caroline Moore, Ffospilcorn yn fam-gu a dad-cu unwaith eto. Ganwyd merch fach, Emmi Haf, i Sarah a Matt a brawd bach i Charlie ym Mryste. Llongyfarchiadau hefyd i Megan Williams, Pentref Isaf, Llanrhystud ar ddod yn hen fam-gu.

**'Pointless'**

Pwy sy'n mwynhau'r rhaglen gwis yma ar y BBC jyst cyn amser swper? Penderfynwyd ei bod yn hen bryd cynnal gweithgaredd arall i drigolion pentref Llanddeiniol a lluniwyd cwis yn seiliedig ar 'Pointless'. Gosodwyd cwestiynau ar bolion lamp o gwmpas y pentref a rhaid oedd mynd am dro i chwilio'r cwestiynau ac yna meddwl am ateb na fyddai dim un o'r timoedd eraill yn ei ddefnyddio! Roedd hefyd heriau i'r plant yn cyd-fynd gyda phob cwestiwn i oedolion. Cafwyd cefnogaeth arbennig a 13 o daflenni yn cael eu dychwelyd i'r bocs atebion. Cyflwynwyd sawl ateb 'Pointless' ac er mawr syndod dim ond un tîm ddefnyddiodd Manchester United fel ateb i'r cwestiwn am dimau pêl-droed Prif Gyngrhair Lloegr oedd ag United yn yr enw. Mae'n amlwg i bobl geisio osgoi'r atebion mwyaf amlwg! Llongyfarchiadau i Richard a Siân, Geryllan ar ddod i'r brig gyda 38 o bwyntiau. Roedd pob ateb cywir yn cael 2 farc a phob ateb 'Pointless' yn cael 3 marc! Yn adran y plant daeth dau dîm i'r brig sef tîm 3 Clos Llwyndeiniol a thîm 4 Clos Llwyndeinol. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi ac edrychwn ymlaen at lacio'r cyfyngiadau yn fuan fel ein bod yn gallu dod at ein gilydd yn y pentref i fwynhau digwyddiad.

**Gwnewch y Pethau Bychain**

Glaniodd tusw o Gennin Pedr ar stepen drws pob tŷ yn Llanddeiniol ar 28 Chwefror. Menter ar y cyd rhwng Capel Elim ac Eglwys St Deiniol oedd hwn a'r bwriad oedd codi gwân ar ddechrau'r gwanwyn. Mae'r derbyniad i'r syniad wedi bod yn wych a phawb yn y pentref wedi gwerthfawrogi'r rhodd a wnaed ac yng ngeiriau un, fel



Y tusw o Gennin Pedr a ymddangosodd ar stepen y drws i ddathlu Gŵyl Dewi yn Llanddeiniol.

roedd y garden yn dweud, yn dod â gwân i'r wyneb. Diolch i'r aelodau fu'n dosbarthu'r tusŵau o flodau o dŷ i dŷ.

**Gwellhad Buan**

Rydym ar ddeall bod Mrs Evans, Montrose yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Danfonwn ein dymuniadau gorau ati.

## Capel Seion

**Munud i Feddwl**
Ceir y myfyrdod dyddiol hwn ar raglen foreol Shân Cothi. Braf fu clywed y Parchedig Ddr John Tudno Williams yn cyflwyno gwahanol themâu ar foreau Llun ym mis Mawrth, sef pump ohonynt, gan ddechrau ar Ddydd Gŵyl Dewi. Tipyn o gamp yw llunio neges gryno berthnasol mewn ychydig funudau. Pleser yw gwrando arnynt a diolch iddo am wneud i ni feddwl.

**Dydd Gweddi'r Byd 2021**
Cynhaliwyd oedfa rithiol gofalaeth y Garn dan arweiniad y Parchedig Ddr. Watcyn James ar fore Sul, 7 Mawrth. Cynlluniwyd y gwasanaeth eleni gan chwiorydd Cristnogol Vanuatu, sef ynysoedd gwasgaredig yn ne-orllewin y Môr Tawel. Y thema oedd 'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn', sef adnod gyntaf Salm 127. Cafwyd darlleniadau, myfyrdodau, gweddïau ac emynau ar y thema a chwiorydd Seion, Penllwyn, Rehoboth a'r Garn yn cymryd rhan. Yn ôl yr arfer yn Seion bu Olwen a Magdalen yn coginio un o felysion y wlad, sef cacen cnau coco, ond gwelwyd eisiau'r cyfle i gydgymdeithasu uwch coffi a blasu'r gacen eleni.

**Ysbyty**
Rydym yn danfon ein cyfarchion cynnes at Mrs Ina Tudno Williams, Pantycrug, ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar yn cael clun newydd. Da yw dweud ei bod adref, ac yn dod ymlaen yn arbennig o dda. Hefyd, i Mr Alan Chamberlain, Pantycrug, gan iddo ef hefyd fod yn Ysbyty Bronglais gyda phroblemau ar ei galon. Mae e dipyn gwell, ond yn awr yn aros i gael galwad o Ysbyty Treforys i gael triniaeth rheoliadur y galon. Pob hwyl Alan, a gwellhad llwyr i chi'ch dau.

**Atgofion**
Yn ddiweddar daethpwyd ar draws hen lun a ddaeth ag atgofion yn ôl i'r cof. Bron drideg mlynedd yn ôl, cyn Nadolig 1992, enillodd Mrs Dorothy Balderstone, Capel Seion wobr anhygoel sef modur newydd sbon am ei gwaith arbennig i gwmni yswiriant. Ymateb Dot ar yr achlysur derbyn y modur oedd 'Nid wyf wedi ennill dim byd o'r blaen. Rwyf yn falch ac yn hapus dros ben, dyma'r anrheg Nadolig gorau gallwn ddymuno ei gael.'




Mrs Dorothy Balderstone a'r car a enillodd ym 1992.



Dr Rachel Rahman.

Atgof hapus o'r amser gynt Dot, mwynhewch y cofio.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau gwresog i Dr Rachel Rahman, Capel Seion, sydd yn Uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, neu Rachel Nantybenglog fel rydym ni yma yng Nghapel Seion yn ei hadnabod. Enillodd Rachel Wobr Prifysgol Aberystwyth am Effaith Ymchwil Eithriadol yn y Gwyddorau am ei gwaith sydd yn ffocysu ar ddefnydd technoleg teleiechyd i gynorthwyo cleifion sydd â chanser. Mwynha dy lwyddiant, a phob dymuniad da eto i'r dyfodol, ac rydym ni yma yng Nghapel Seion yn falch iawn o dy lwyddiant.

**Ffarwelio**
Trist iawn i ni bobl y fro fydd ffarwelio â Jimmy, ein postmon arbennig, gan y bydd yn ymddeol o fewn yr wythnosau nesaf. Dydd Sadwrn, 8 Mai yw ei ddiwrnod gweithio olaf. Mae Jimmy wedi gweithio i'r Post Brenhinol ers 47 mlynedd – gwasanaeth clodwiw. Bydd pawb yn gweld chwithdod mawr ar ei ôl, gan ei fod mor barod ei gymwynas ac yn ŵr caredig. Bydd Margaret, ei briod hefyd yn ymddeol ddiwedd yr haf, hithau hefyd wedi rhoi cyfnod hir i Undeb Amaethwyr Cymru. Hoffem ddiolch i Jimmy ac rydym yn dymuno pob hawddfyd, iechyd a hapusrwydd iddo ef a Margaret yn y blynyddoedd sydd i ddod.

## Trefenter

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Ifor a Margaret Lewis, Tycoch ar enedigaeth ŵyr bach ar 1 Mawrth pan anwyd George Lewis Lynn i Lowri ac Elliott Lynn yng Nghaerdydd. Nai bach i Steffan a Siôn. Edrychwn ymlaen i gael cwrdd â George. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

## GAIR O'R ESGAIR

Saif Cofgolofn Llanfarian tua hanner milltir i'r de o ganol y pentref ar ymyl y briffordd sy'n cysylltu Abergwaun a Bangor. Mae'r arwyddnod yr un mor amlwg os ydych yn grwt mewn trowsus bach neu'n unigolyn a brofodd droeon yr yrfa. Er byw mewn mannau eraill, hwn yw'r cynefin. Yma ger y gofgolofn oedd gartref.

Ystyriais y gofeb yn allwedd lawer gwaith wrth hysbysu gyrwyr bysiau f'arddegau o'm dymuniad. Bu'n ganllaw buddiol i gydnabod tu hwnt i'r filltir sgwâr ganfod yr aelwyd.

Ni ellir dirnad yr ing a brofodd teuluoedd y naw a enwir ar y gofgolofn sy'n cofnodi'r Rhyfel Mawr. Cysegrwyd y gofeb ar ddiwrnod olaf Ebrill 1921. Mae taflen gwasanaeth y cysegriad yn nodi mai'r Arglwydd Ystwyth sef Vaughan Davies, Tanybwlch a fu'n gyfrifol am ddadorchuddio'r gofgolofn. Cyfeirir hefyd at y ficer sef y Parchedig J. Gwynfe Jones. Cyflawnodd dau o weinidogion yr ardal, y Parchedig Isaac Joel a'r Parchedig W. Llewelyn Davies, ddyletswyddau amrywiol yn ystod y gwasanaeth.

Ar 21 Tachwedd 1954 y cysegrwyd y goflech a osodwyd er mwyn coffáu'r tri a gollwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Bu'r traddodiad llafar yn werthfawr i drosglwyddo gwybodaeth i'r genhedlaeth iau. O ganlyniad sylweddolais fod cysylltiad teuluol ag un o'r rhai a enwir ar y goflech. Adeiladwyd ysgol gynradd newydd ar gyfer ardal Llanfarian yn ystod chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Lleolir yr ysgol tua dau ganllath o'r gofgolofn ar yr ochr chwith wrth fynd tua'r gogledd i gyfeiriad Llanfarian.

Agorwyd yr ysgol yn swyddogol gan Morgan Davies, Cadeirydd Pwyllgor Addysg Ceredigion, ar 28 Mehefin 1968. Dyfal donc a dyrr y garreg oedd anogaeth yr henadur o ardal Tregaron i'r disgyblion a'r oedolion ar brynhawn hanesyddol.

Clywais flynyddoedd wedi hynny am yr ymdrech daer a wnaed i gael y maen i'r wal er mwyn sicrhau ysgol newydd. Gwrthodwyd yn gyson gan uwch swyddogion y dystiolaeth am beryglon y ffordd fawr i'r plant yn Chancery. Er hynny, dal ati fu'r gamp. Dywedir mai ymweliad dyn dylanwadol â Chancery oedd yr achlysur tyngedfennol pan drodd y rhod o blaid symud i leoliad newydd. Argyhoeddwyd ef o'r peryglon, mae'n debyg, ar ôl iddo bron â chael anffawd ar y briffordd wrth ystyried y dadleuon.

Gwahoddwyd Elystan Morgan, yr Aelod Seneddol lleol, i fod yn ŵr gwadd. Y gŵr galluocaf o aelodau'r Llywodraeth Lafur ac yn gyndyn i gefnu ar y syniad o wneud y drefn weinyddol Gymreig yn fwy atebol i'r Cymry. Dyna sylw dadlennol yr hanesydd John Davies am Elystan Morgan.

Ychwanega mai ei ymdrechion ef yn anad neb a esgorodd ar benderfyniad y llywodraeth i sefydlu comisiwn brenhinol ar y cyfansoddiad. Datganoli i Gymru a'r Alban fyddai ei brif faes. Cafodd nifer o blant ac unigolion yn agoriad yr ysgol yn 1968, gan gynnwys Elystan Morgan, weld y dydd pan bleidleisiodd mwyafrif o blaid datganoli. Gwireddwyd yr ymadrodd, hir yw pob aros, unwaith eto.

Mae carreg filltir gyferbyn a mynedfa'r ysgol yn dynodi mai tair milltir yw'r siwrnai i Aberystwyth. Crybwyllir am Harri Tudur yn mynd i gyfeiriad y dref ar ei daith i faes Bosworth. Ar waetha' pob dadrithiad a siom, dyma fy nghynefin. Tua'r de a heibio'r gofgolofn yr af y tro hwn.

**Trefor Huw Jones**

# Nodiadau Natur

*gan Ann M. Davies ac Ian Sant (Ffotograffydd)*

Roedden i wedi tybio fod gen i syniad da ar gyfer y golofn yma ond roedd Galwad Cynnar wedi codi o fy mlaen ac felly gan fod Sul y Mamau yn digwydd yn y mis pryd mae rhaid rhoi inc ar bapur, dyma syniad arall yn codi ei ben. Ydych chi wedi sylwi faint o flodau'r gwanwyn sydd yn cynnwys enw Mair? Dyna'r ddolen gyswllt, wan efallai, gyda Sul y Mamau. Yn wreiddiol, Sul oedd hwn pryd byddai gweision a morynion mewn gwasanaeth oddi cartref yn cael cyfle i fynd adre i weld eu mamau ac i fynd i'r fam eglwys i ddiolch amdanynt. Byddai yn digwydd ar y pedwerydd Sul o'r Grawys, yn arwain at y Pasg pan fyddai Mair, mam yr Arglwydd Iesu yn cael sylw hefyd. Gydag amser collwyd yr arwyddocâd gwreiddiol ac aeth yn ddathliad seciwlar i'r holl famau. Cadwodd y blodau enw Mair ac fe gawn ystyried rhai ohonyn nhw. Hyd yma mae gen i restr o dros ddeugain!

Fel llynedd, mae'r Briallu wedi dechrau blodeuo yn gynnar ond hyd yma dim ond dail bach ifainc sydd i'r Briallu Mair yn y lawnt. Ofnais fy mod wedi eu colli trwy adael i'r glaswellt dyfu braidd yn wyllt yn y gobaith o gael llain o flodau gwylltion yn yr ardd. Ond wir, maen nhw hyd yn oed wedi ennyn a byddaf yn edrych ymlaen at weld y sypiau o flodau bach melyn ar y goesgen dal uwchben y gweiriau. Roedd trwyth o wahanol rannau o'r planhigyn yn cael ei ddefnyddio slawer dydd ar gyfer nifer o anhwylderau ac mae'n bosib o hyd (Covid yn caniatáu!) i brynu eli ohono ar gyfer doluriau ar y croen. Mae ymchwil ar waith yng Ngerddi Kew i'r nodwedd sydd ganddo i atal gwayw sydd yn gysylltiedig ag epilepsi ac afiechyd Parkinson. Enwau eraill arnyn nhw yw Briallu Mair Sawrus (oherwydd eu persawr) a Sawdl y Fuwch – mae'n debyg oherwydd eu bod yn tyfu yn arbennig o dda ar ddolydd aeddfed sydd heb gael unrhyw wrtaith ond dom da. Mae un o'r enwau Saesneg yn eu disgrifio fel bwndel o allweddi ar fodrwy. Rwyf wedi sôn o'r blaen am y caeau llawn ohonynt oedd yn gyffredin yn yr ardaloedd hyn pan oedd arferion amaethu yn wahanol.

A dyma ddod at broblem gydag enwau cyffredin ac enwau gwahanol ardaloedd oherwydd enw arall ar Friallu Mair yw Dagrau Mair sef enw arall ar y llwyn neu'r Goeden Drops (Fuchsia). Mae'r enw yn disgrifio'r blodau crog sigledig hynny yn berffaith.

Ond nid blodyn y gwanwyn yw'r Goeden Drops na'r *Marigold* (Saesneg). Mae pethau yn dwysáu wrth ystyried y rhain! Melyn Mair yw'r blodyn gardd a Melyn Mair yr Ŷd yw enw swyddogol ei berthynas; neu Melyn Mair yr Âr sydd yn cyfleu ei fod yn tyfu ar dir sydd wedi ei aredig. Mae rhai ohonom yn cofio'r blodau melyn hardd oedd mor gyffredin pan oedd ŷd neu wenith yn cael ei dyfu ar ffermydd cymysg y wlad. A dyna ble mae pethau yn mynd yn fwy cymhleth oherwydd mae hwn yn fath gwahanol er ei fod yn hynod o debyg. Dail rhanedig sydd ganddo ac mae'n perthyn i'r Chrysanthemum ac nid yw enw Mair



yn yr enw swyddogol o gwbl, sef Melyn yr Ŷd. Y rheswm ei fod yn cael sylw yma yw bod un o'i enwau cyffredin yn Gold Mair!

Nid yw Gold Mair yn enw swyddogol ar unrhyw flodyn ond nid yw'n rhyfeddod fod 'aur' ar lafar gwlad wedi ei ddefnyddio ar gyfer Melyn yr Ŷd ac ar gyfer Melyn Mair yr Ŷd. Dim ond arbenigwr fyddai'n gwybod y gwahaniaeth ac nid oes sôn am Felyn Mair yr Ŷd yn y rhan fwyaf o'r hen lyfrau blodau – pob blodyn melyn yn y cae llafur yn Felyn yr Ŷd.

Mae'n rhyfedd fod 'gold' wedi cael ei ddefnyddio o gwbl yn lle 'aur' ond Gold y Gors yw enw swyddogol y blodyn melyn hardd sydd yn tyfu a'i draed yn y dŵr ar gorsydd a mannau gwlyb mewn coedlannau. (Coeliwch neu beidio mae hwn wedi cael yr enw Melyn Mair mewn mannau hefyd!)

Efallai daw cyfle i ddilyn y sgwarnog aur rywbryd eto ond down yn ôl at Mair a'i chwys! Blodyn Ymenyn Bondew yw'r enw swyddogol ar fath o Flodyn Ymenyn sy'n tyfu mewn caeau ac yn cynhyrchu math o wreiddyn crwn yn y bonyn dan wyneb y ddaear. Er nad yw yn safonol mae'r enw Chwys Mair yn haws i'w gofio ac yn codi rhyw ddarlun yn y meddwl. Tybed a yw'r enw hwn wedi ei fathu gan rywun oedd wedi sylwi beth oedd o dan y petalau melyn? Yno mae'r sepalau gwyrddfelyn a phob un o'r pump yn troi tuag i lawr a glynu wrth y goesgen – fel diferion o chwys yn tarddu o dalcen cyn llithro lawr. Dychymyg efallai ond roedd yr hen Gymry yn go greadigol wrth ddod at enwi pethau cyffredin pob dydd.


**CARPEDI K&M**

**Ffôn: 01974 251656**
**Ken: 07970 045129**
**Meirion: 07811 479791**

**GWASANAETH GWERTHU A GOSOD**

**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
morlan.aber@gmail.com
Morlan,
Morfa Mawr,
Aberystwyth
SY23 2HH
01970 617 996

**Brodyr EVANS Bros**
PRIF FASNACHWYR
MASSEY FERGUSON YN NE, GORLLEWIN A CHANOLBARTH CYMRU
Cefnmabws,Llanrhystud: 01974 272 260
Crosshands: 01269 831 020
Machynlleth: 01654 703 440
Hwlffordd: 01437 762 736
www.brodyrevansbros.co.uk

**KANGALOOS**
Gwasanaeth Hurio Toiledau Symudol a Gwacáu 'Septic Tanc'
Cysylltwch â Iwan ar **01974831266** neu **07855364947**

**inc**
13 Heol y Bont, Aberystwyth
01970 626200
- llyfrau Cymraeg
- cerddoriaeth Gymraeg
- cardiau Cymraeg
- cylchgronau Cymraeg
- crysau-t Cymraeg
- papurau bro

Croesewir archebion gan unigolion ac ysgolion

# Pontarfynach




Mae Enfys Mair yn ferch fach lwcus iawn gyda phedair cenhedlaeth ar y ddwy ochr. Dyma hi gyda teulu'r Davies: Enid Davies, hen fam-gu, Milwyn, dad-cu a Mari y fam.

**Genedigaeth**
Croeso i'r baban bach newydd i aelwyd Rhos-y-rhiw, mab Defi Dylan Jones Evans i Ifan a Gwawr a gyrhaeddodd ar ddiwedd mis Chwefror. Mae Heti Mair a Jos Ernest wrth eu boddau yn maldodi eu brawd bach. Llongyfarchiadau i Crwys a Lal, Tŷ'n Rhos ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto.



Daeth Enfys Mair a chwa o awyr iach i'w theulu ar ddiwedd llynedd. Dyma hi gyda'i rhieni balch, Ceredig a Mari, Dolcoion, Rhos-y-gell.

**Cyngor Bro Pontarfynach**
Trafodwyd y materion isod yng nghyfarfodydd diweddar y Cyngor.

*Rhoddion*
£200.00: Ysgol Gynradd Mynach tuag at archebu nwyddau ac adnoddau i'r ardal tu allan.
£100.00: Yr Ambiwlans Awyr; Clwb Ffermwyr Ifainc Trisant; Blood Bikes Ceredigion.
£75.00: Y Ddolen, Cylch Meithrin Penllwyn.
£50.00: Radio Bronglais; Nyrsys Marie Curie Cangen Ceredigion a Chaerfyrddin.

*Cyfrifon 2019/2020*
Derbyniwyd adroddiad archwiliad anghymwysiedig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Cyngor Bro Pontarfynach, sy'n cadarnhau bod pethau mewn trefn.

*Gohebiaeth*
Dogfen 'Terminoleg Covid at sylw Cynghorau Tref a Chymuned' gan Gyngor Sir Ceredigion.
Dogfen oddi wrth Archwilio Cymru 'Cylch Archwilio 2020–21 Ymlaen – Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru'.
Gwybodaeth: Gweithdy cymunedol 'O'r Mynydd i'r Môr'.
Poster cyswllt Cyngor ar Bopeth Ceredigion.
Gwybodaeth am e-byst sgam am frechlyn Covid-19.

*Materion angen sylw*
Nifer o ddraeniau dŵr wedi'u gorlenwi yn yr ardal yn enwedig ar y ffordd gyferbyn ag Ysgol Mynach tuag at Trisant.

Nifer o gŵynion wedi derbyn am sefyllfa casglu biniau bwyd/ailgylchu/gwastraff bagiau duon dros gyfnodau Gwyliau Banc yn gyffredinol. Cyngor Ceredigion yn ymwybodol o'r problemau.

Trigolion i fod yn ymwybodol o sgamiau sy'n mynd o amgylch o ran y brechiad Covid-19.

Archebwyd offer diffibriliwr i'r ardal drwy nawdd Grant Fferm Wynt Cefn Croes. Un i'w ddodi tu allan i'r Ganolfan Gymunedol newydd ym Mhontarfynach a'r llall i'w leoli yn y ciosg coch yn Nhrisant. Trefniadau mewn llaw hefyd i archebu bocsys gwresogi ar gyfer yr offer cyfredol sydd yn yr ardal.

*Cais Cynllunio*
Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais cynllunio: A201091 / A201092 – Pendre, Hafod, Pontrhydygroes: Estyniad unllawr i'r prif dŷ er mwyn darparu ystafell eistedd / fyw newydd; Trosi adeilad allanol ynghlwm i greu ystafell ardd; Codi adeilad allanol ar wahân i ddarparu stiwdio / campfa ioga a lle storio sy'n cynnwys pwll allanol a ffurfio mynediad ar wahân i gerbydau i'r adeilad allanol newydd.

# Llanfarian

**Teyrnged i Mam**
**Megan Eirlys Williams**
**14 Rhagfyr 1927 – 13 Mawrth 2021**

Roedd Mam yn ddewr ac yn ddireidus. Nyrs wrth ei galwedigaeth ac yn garedig o ran anian. Yn wir, cariad, caredigrwydd a goddefgarwch oedd y rhinweddau bydd y teulu yn eu cofio orau amdani. Cafodd ei geni ar 14 Rhagfyr 1927 yng Nghilcennin, Sir Aberteifi, merch i Gwilym a Catherine Ellis. Ei thad Gwilym oedd Prifathro Ysgol Cilcennin ac aeth ymlaen i fod yn bennaeth Ysgol fach Aberaeron pan symudodd y teulu i Môr Ewyn, Aberaeron yn 1941 ble ganwyd brawd, Huw, i'r chwiorydd Betty, Megan a Rhiannon. Gadawodd Mam am Lundain yn 1946 ar ôl ei chyfnither Nesta i fod yn Nyrs yn Surbiton, Surrey. Dwy flynedd cyn dechrau'r Gwasanaeth Iechyd a sefydlwyd gan ei chyd-Gymro Aneurin Bevan. Gweithiodd hi fel Nyrs yn Ysbyty St George ac yna Ysbyty Guys, Llundain ble bu'n trin cleifion megis gwragedd Richard Attenborough a Donald Sinden a chroesawi eu babanod i'r byd a hefyd y peiriannydd Syr Frank Whittle. Cwrddodd hi â'i darpar ŵr John Williams yng nghapel Jewin oedd yn cyfarfod yng Nghanolfan Cymry Llundain, Gray's Inn Road ar ôl i'r capel gwreiddiol gael ei fomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Nôl a blaen i Gymru aeth Mam a bu'n gweithio yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Bronglais ond ei chyfnod hapusaf oedd gweithio fel bydwraig yn Hampstead a Kilburn ac wedyn fel Ymwelydd Iechyd, yn Gravesend yng Nghaint. Un stori roedd Mam yn hoff o'i hadrodd oedd sut daeth hi allan ar ôl ymweld â theulu yn Kilburn ac roedd rhywun wedi dwyn tsiaen ei beic a bu rhaid iddi wthio'r beic yr holl ffordd adref. Rhyw 'Teddy Boy' y cyfnod wedi ffansio'r chain i wneud cosh. Un tro arall roedd hi ar y rheilffordd danddaearol (Yr Underground) ac mi wnaeth lleidr poced ddwyn ei chyflog misol i gyd o'i phwrs. Mi roedd hi'n fis tlawd iawn ar ôl hynny.

Ar ôl Capel ar y Sul fe fyddai yn weddol aml yn mynd i Speaker's Corner, Hyde Park i glywed mwy o bregethu ac mi roedd hi yn y gynulleidfa yn y White City Stadium yn 1954 pan ddaeth yr Efengylwr Billy Graham drosodd o America. Annibynwyr oedd



enwad y teulu Ellis ond ar ôl priodi John Williams o Ddyffryn Clwyd yn 1961 mi aeth i fynychu'r Hen Gorff ar y Sul ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Wrecsam ac yn y Tabernacle Rhuthun. Ar ôl priodi, y drefn bryd hynny oedd gadael eich gwaith os yn fenyw i gadw teulu a magu plant. Mi roedd Mam yn colli'r byd nyrsio yn arw ond fe ganwyd Carys yn 1962 a Dafydd y mab yn 1966.

Roedd Megan yn wraig dda yn ôl John sydd yn 102 ac sydd yn dyst am y ffordd a wnaeth hi edrych ar ei ôl o. Dim ond yn ystod dwy flynedd olaf ei bywyd y collodd Mam ddefnydd ei choesau a hyn wedyn yn arwain at fywyd yn gaeth i'w gwely er iddi ddioddef mi wnaeth hyn gyda gras ac urddas. Cadw ei synnwyr digrifwch oedd ei rhinwedd allweddol ac mi gofiwn Mam am ei hiwmor, ei chariad a'i charedigrwydd.

Dymuna'r Teulu ddatgan yn gyhoeddus eu diolchgarwch i unigolion Cwmni Gofal Cerecare a wnaeth ofalu yn ardderchog amdani yn ystod cyfnod y clo a hefyd i Dîm Nyrsys yn y Gymuned dan ofalaeth Sister Yvonne a wnaeth gymaint drosti yn enwedig yn ei dyddiau olaf yn y byd hwn. Diolchwn hefyd i Iona Mason am fod yn ffrind mor driw i Mam dros y blynyddoedd diwethaf. Bu Megan a John yn byw yn Ffawydd, Lôn yr Eglwys, Llanfarian ers 1999.

Nos Da Mam. Mae 'na golled enfawr ar dy ôl ond mi fyddi di yn fuan ym mreichiau dy deulu gwreiddiol yn y fynwent ym Methania.

**Dafydd Williams**

**Ysgol Llanfarian**
Yn dilyn cyfnod estynedig o adeilad gwag a dim sŵn plant yn yr ysgol, braf iawn oedd medru croesawu'r plant i gyd nôl yn



Disgyblion CA2 yn gwneud eu harbrawf pengwiniaid.



Dewi Sant (Karen) yn ymweld â'r plant ar Ddydd Gŵyl Dewi.





Plant y Cyfnod Sylfaen yn eu gwisgoedd ar Ddiwrnod y Llyfr.

raddol yn ystod y mis. Mae'r ysgol unwaith eto yn fyw gyda lleisiau plant yn chwarae a chwerthin.

Fel staff, rydym yn hynod o falch i weld pawb nôl yn ddiogel ac yn diolch o galon i'r rhieni am eu gwaith diflino yn ystod beth sydd wedi bod yn gyfnod go ryfedd i ni i gyd. Gobeithio wir cawn ni dymor Haf mwy llewyrchus a llwyddiannus!

*Dydd Gŵyl Dewi*
Blwyddyn 2 oedd yr unig ddisgyblion yn yr ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi. Daethant yn eu gwisgoedd Cymreig a'u crysau rygbi, ond wir, cawsant dipyn o syrpreis pan ymwelodd Dewi Sant yn y maes parcio amser cinio ... ac yna newid ei wisg mewn i hen ledi Gymreig! Diolch o galon i Karen a Mary o Eglwys Llanychaearn am eu hymdrechion ac am wneud Dydd Gŵyl Dewi yn un bythgofiadwy i'r plant am y rhesymau cywir! Dwi'n siŵr byddant yn cofio am Dewi'n dawnsio yn hytrach na'r ffaith maen nhw yn unig oedd yn yr ysgol y diwrnod hwnnw!

Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn dysgu am Dewi a phwysigrwydd Dydd Gŵyl Ddewi i ni i gyd fel Cymry mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Cafodd Disgyblion CA2 gyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth peintio cerrig ac Orielodl yn y prynhawn. Hyfryd iawn oedd beirniadu eu gwaith. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi wythnos nesa cyn i ni gau ar gyfer Gwyliau'r Pasg.

*Cystadlaethau Y Ddolen*
Diolch i'r Ddolen am gynllunio cystadleuaeth celf ar gyfer disgyblion yr ardal, mwynhaodd y plant luniadu golygfeydd o'u hardal leol yn fawr iawn.

*Diwrnod y Llyfr*
Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen gyfle i wisgo fel cymeriadau o'u hoff lyfrau, ac yn wir, roedd yna wisgoedd gwych eleni eto! Diolch i'r rhieni am eu hymdrechion wrth baratoi'r plant. Cawsom gyfle ar draws yr ysgol, boed hynny mewn sesiynau byw ar y cyfrifiaduron, neu ar lawr y dosbarth, i ddathlu darllen a chariad at lyfrau.

*Gwyddoniaeth*
Bu disgyblion CA2 yn astudio'r thema Oeri, rhewi, toddi a thwymo yn ystod y cyfnod clo. Un o'r gweithgareddau a wnaethant oedd cynllunio arbrawf i ddarganfod pam mae pengwiniaid yn creu 'huddle'. O'r diwedd cawsom gyfle i gynnal ein harbrawf gyda'r plant yn mwynhau mas draw cael gweithgareddau Gwyddoniaeth yn yr awyr agored.

*Diwrnod Ailgylchu'r byd*
Roedd hi'n ddiwrnod ailgylchu byd eang ar ddydd Iau, 18 Mawrth a chymerodd disgyblion CA2 ran mewn cystadleuaeth creu gwisg allan o bethau byddai fel arfer yn cael eu hailgylchu, e.e. bagiau plastig, papurau newydd, ayb.

Wythnos nesaf, byddwn yn cael sioe ffasiwn ar iard yr ysgol er mwyn medru beirniadu gwisgoedd a dyluniadau'r disgyblion. Dwi'n siŵr bydd lluniau gennym erbyn rhifyn nesaf Y Ddolen!




Lenny Evans – 3ydd mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth ddiweddar.



Florence Bates (1af) ac Eliza Evans (3ydd) am ysgrifennu barddoniaeth.

## Rhydyfelin

**Diolch**
Mae llawer mwy o gerddwyr ar Lwybr Ystwyth ers y cynfod clo cynta' ac mae pellhau cymdeithasol yn anodd ar adegau yn enwedig wrth i ddail gasglu a phydru ar yr ochrau a lleihau lled y llwybr. Bu dau yn gweithio yn galed i glrio'r llwybr o Lanfarian lawr i'r glwyd ger pont Rhydyfelin i wneud y llwybr yn ddiogel i'r cerddwyr. Diolch i Hugh a Christine Griffiths am eu gwaith gwirfoddol.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Mared Llwyd, Elgan, Leusa a Cadog, Llwyn Cilan, ar golli mam Mared sef Mari Luned.

# Ponterwyd

**Ysgol Syr John Rhys**

*Diogelwch ar lein*

Fel rhan o'r gwaith iechyd a lles a TGCh mae'r disgyblion yn dysgu am ddiogelwch ar y We ac i gynorthwyo gyda rhannu'r negeseuon pwysig yma mae PC Hannah sydd yn cynnal sesiynau tymhorol gyda'r dosbarth. Diolch i chi am eich amser yn trafod peryglon chwarae gemau ar lein a hefyd am rhoi arweiniad clir i'r plant am sut i fod yn ddiogel.

*Gweithdy gyda'r Artist Orielodl*

Drwy ryfeddod technoleg fe fu'r plant yn rhan o weithdy celf gyda'r artist Cymreig Rhys Padarn, Orielodl ble cafwyd y cyfle i ddefnyddio ei ddull i greu darlun yn defnyddio arwyddair yr ysgol, Dysg, Dawn, Daioni. Bu'r plant yn brysur yn ychwanegu delweddau o gwmpas y geiriau yma a fydd yn sail i arwydd newydd a fydd yn cael ei roi yn yr ysgol. Diolch yn fawr i Rhys Padarn am ei amser a'i arbenigedd, roedd yn weithdy llawn hwyl gyda phob plentyn yn llwyddo i greu celf arbennig.

*Gweithdy Barddoniaeth*

Diolch yn fawr i Cardi Iaith am drefnu gweithdy sgwad barddoniaeth gyda'r bard Aneirin Karadog. Mwynhaodd Gwenan ddatblygu ei sgiliau ysgrifennu gan ddechrau cyfansoddi cerdd o dan arweiniad y bardd dawnus. Roedd hi'n fraint cael bod yn rhan o'r gweithdy ac yn llawer o hwyl!

*Bêc Off Diwrnod y Llyfr*

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr eleni fe gynhaliwyd Bêc Off rhwng disgyblion dosbarth 2. Tasg y plant oedd pobi teisen oedd yn cyfleu neu ar thema llyfr o'u dewis. Braf oedd gweld yr holl gampweithiau anghygoel a ddaeth i mewn: o gacen 'Quidditch' o Harry Potter i gacen 'Lion King'. Bu'r beirniad, Sarah Bunton, yn brysur yn beirniadu'r teisennau ac yn y diwedd dewiswyd cacen Alaw Davies o'r '101 Dalmatians' yn gyntaf, cacen 'Awful Auntie' Isabella Jouini yn ail a rhannwyd y drydedd wobr rhwng cacen 'Mr Happy' Kailen Jones a 'Hermione o Harry Potter' gan Magi Jones. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch am roi cymaint o ymdrech mewn i'r dasg ac am lwyddo i bortreadu eich llyfrau mor dda. Diolch hefyd i Sarah am ei hamser, a gobeithio yn y dyfodol y byddwch chi'n medru blasu wrth feirniadu.

*Croeso nôl CA2*

Braf iawn yw croesawi disgyblion CA2 yn ôl i'r ysgol wedi cyfnod arall o ddysgu o bell. Roedd pawb yn falch iawn i weld ei gilydd ac yn edrych ymlaen at gael treulio pythefnos yn chwarae, cymdeithasu, a dysgu rhywfaint cyn gwyliau'r Pasg. Roedd pob un ohonynt yn falch i fod yn ôl am resymau gwahanol gan gynnwys edrych ymlaen i fwyta cinio ysgol, gweld eu ffrindiau a'r athrawon a chael gwersi mathemateg. Mae pawb yn setlo yn ôl yn dda ac mae'n braf gweld pawb yn hapus.

*Dysgu o Adref*

Er y bu'n gyfnod anodd ar ddechrau'r flwyddyn hon, bu'r holl ddisgyblion yn brysur tu hwnt yn dysgu o adref bob dydd ar dasgau amrywiol a ffrydio'n fyw. Cafwyd llawer o hwyl yn dysgu am yr Arctig, adar bach yr ardd, dathlu Santes Dwynwen, dathlu diwrnod miwsig Cymru a llawer mwy o weithgareddau hyfryd, ond dwi'n credu mai'r uchafbwynt oedd dysgu rapio dros Teams!



Yn paratoi at Sul y Mamau

*Croeso nôl CS*

Braf oedd croesawi disgyblion y Cyfnod Sylfaen nôl i'r Ysgol ar ddechrau'r mis. Roedd yn hyfryd i weld ein ffrindiau unwaith eto, ac edrychwn ymlaen at dymor llawn hwyl a sbri.

*Dydd Gŵyl Dewi*

Cafwyd diwrnod llawn sbri a gweithgareddau hyfryd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y cyntaf. Braf iawn oedd gweld y disgyblion wedi gwisgo i fyny yn eu dillad Cymreig i fwynhau mapio Cymru, rhifedd Gŵyl Dewi, dysgu Cerdd y Cennin Pedr ac arlunio daffodil.

*Diwrnod y Llyfr*

Diwrnod prysur arall yr wythnos hon i ddathlu Diwrnod y Llyfr ar 4 Mawrth. Bendigedig oedd gweld y plantos i gyd wedi gwisgo i fyny fel cymeriadau allan o lyfrau i gael mwynhau llwyth o weithgareddau hwyl; creu llyfrnod, mynd ar helfa llyfrau darllen, creu animeiddiad o'i cymeriad a chael mwynhau stori a chân gan yr awdures Gwawr Edwards dros Teams. Diwrnod llawn gweithgareddau a llawn cyffro, hwyl a sbri.

*Sul y Mamau*

Bu'r disgyblion yn brysur tu hwnt yn paratoi syrpréis i'w mamau yn ystod yr wythnos yn arwain i fyny at Sul y Mamau eleni – blwch llawn cariad a ysbrydolwyd gan gwmni bach lleol Prydferthflwch. Yn sicr roedd y mamau i gyd yn hapus dros ben gyda'u syrpréis!

*Pasg Hapus*

Hoffwn ddymuno Pasg Hapus i holl deulu a ffrindiau'r Ysgol.



Alaw - Pencwmpwr Bêc Off Diwrnod y Llyfr dosbarth 2.



Gwenan yn mwynhau'r sgwad barddoniaeth gyda'r bard Aneirin Karadog.



Rhai o ddisgyblion dosbarth 2 yn mwynhau bod nôl yn yr ysgol.



Rhai o blant y Cyfnod Sylfaen yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

# Llanfihangel-y-Creuddyn







Rhai o blant y Cyfnod Sylfaen yn gwisgo coch i ddathlu Diwrnod Trwynau Coch.



Plant yr ysgol yn eu gwisg Cymreig.



Gwers rithiol gyda PC Hannah

**Diolch**

*Er cof am Glenda Leyshon*

Dymuna Iestyn, Trystan a Caryl, Glasnant ynghyd ag Einir ac Alan, Trem y Wawr ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Glenda; priod, mam a chwaer, a hynny yn sydyn wedi cyfnod byr o salwch.

Gwerthfawrogwyd y negeseuon caredig, y llu o gardiau, y galwadau ffôn, y blodau a'r rhoddion bwyd a dderbyniwyd. Bu'r cyfan yn gysur mewn cyfnod anodd a thrist.

Cynhaliwyd yr angladd yn breifat oherwydd y cyfyngiadau. Diolch i'r Parch Ingrid Rose ac i Selwyn Evans, D. J. Evans am eu gwasanaeth urddasol; i Gwenan Creunant am y deyrnged glodwiw, i Blodau'r Bedol am drefnu'r torchau hardd; i bawb a roddodd bob cymorth ac i'r niferoedd a ddaeth i aros ar ochr yr hewl ar ddydd yr angladd i dalu'r gymwynas olaf.

Dymunwn hefyd ddiolch yn garedig am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof am Glenda, swm o £1,675 tuag at Ward Meurig, Ysbyty Bronglais a chronfa Nyrsys y Gymuned yn Nhregaron a Llanilar a roddodd ofal arbennig i Glenda.

*Rose a Meirion Williams*

Dymuna Rose a Meirion Williams, Ceunant House ddiolch am y cardiau, y galwadau ffôn a phob caredigrwydd a ddangoswyd iddynt ar achlysur eu pen blwydd priodas diemwnt yn ddiweddar.

**Deunaw Oed**

Pob dymuniad da i Euros Williams, Llannerch Wen ar ddathlu ei ben blwydd yn ddeunaw oed.

**Yr Ysgol**

*Croesawu disgyblion yn ôl i'n plith*

Cyfnod digon rhyfedd fu yn yr ysgol unwaith eto ar ôl gwyliau'r Nadolig. Daeth y newyddion nad oedd posib i ni groesawu'r plant yn ôl fel y disgwylid. Yn hytrach, roedd yn rhaid i ni ddychwelyd at Teams i gynnal gwersi byw a gosod aseiniadau i'r disgyblion. Braf oedd gweld y disgyblion yn ymgymryd â'u tasgau a mynychu sesiynau gwersi ffrydio byw. Fodd bynnag, gwell o lawer yw gweld y disgyblion wyneb yn wyneb a diolch byth, maent i gyd wedi dychwelyd i'r dosbarth erbyn hyn. Daeth disgyblion Cyfnod Sylfaen yn ôl yn gyntaf ac ar ôl tair wythnos, rydym wedi croesawu CA2 hefyd. Dyna braf yw clywed sŵn y clebran a chyffro yn yr ysgol unwaith eto!

*Dydd Gŵyl Dewi*

Diwrnod cyntaf y Cyfnod Sylfaen oedd Dydd Gŵyl Dewi, felly hyfryd oedd eu gweld nhw wedi gwisgo yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig. Anodd oedd cynnal gweithgareddau arferol megis canu, cystadlu a choginio o ganlyniad i'r cyfyngiadau, felly dathlwyd mewn ffordd dawel eleni. Mwynhaodd y plant ddysgu am ein nawddsant a phwysigrwydd y neges o wneud y pethau bychain.

*PC Hannah*

Cynhaliwyd sesiwn dysgu ar Teams gyda PC Hannah. Bu'r plant a hithau yn trafod ymddygiad gwrthgymdeithasol a chawsant drafodaeth aeddfed a phwrpasol. Diolch i PC Hannah am ei hamser.

*Diwrnod Trwynau Coch*

Hyfryd oedd cael codi arian i'r elusen haeddiannol yma unwaith eto. Trefnodd y plant i wisgo dillad coch er mwyn cefnogi'r elusen. Daeth sawl un i'r ysgol efo'u trwynau wedi lliwio'n goch! Diolch i bawb am gefnogi'r elusen unwaith eto.



Dosbarth CA2 yn dathlu Diwrnod Trwynau Coch drwy wisgo dillad coch.

*Trefnwyr Angladdau*
C.T. Evans
Perchnogion Gwyn & Janet Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn
Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas
Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Ddydd a Nôs
01970 820 013 gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

# Llanrhystud

Gohebydd: Mair Owens, Ynys Wen,
Pentre Isaf (01974 202260)

**Diolch**

Hoffai Myfanwy Thomas, Bedw Arian, Clos Allt Fach ddiolch yn fawr i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed. Diolch am y cardiau, blodau ac anrhegion.

**Ysgol Myfenydd**

*Croeso yn ôl*

Mor hyfryd ydyw i glywed atsain y plant ymhob dosbarth, y chwerthin , y brwdfrydedd a'r egni colledig a fu rhwng muriau'r ysgol. Mae wir yn ysgafnhau'r enaid wrth weld y plant gyda'i gilydd wrth eu gwaith ac wrth gymdeithasu a chwarae adeg egwyl. Ni wnaeth yr addysg na'r dysgu ddod i ben yn hytrach roedd rhaid addasu ac mi wnaeth y plant, staff a'r rhieni ymateb yn fendigedig i'r her a osodwyd iddynt dros yr wythnosau. Ni fuodd y drysau ar gau chwaith ond yn gil agored pan oedd yna angen am gefnogaeth bellach. Wrth ysgrifennu hanes Myfenydd heddiw rhyfedd yw meddwl taw blwyddyn yn union i'r diwrnod y gwnaeth yr ysgol gau am y cyfnod clo cyntaf a dyma ni eto ddim cweit wedi dianc o'r hunllef ond ychydig yn fwy gobeithiol nag yr oeddem. Pwy fyddai wedi dychmygu beth oedd gan y flwyddyn ar ein cyfer? Ond heddiw, wynebau hapus oedd yn mynd trwy giât yr ysgol, yn ffarwelio ac yn gwybod y byddent yn ôl wap ar ôl y penwythnos.



Ni nôl! Blwyddyn 3, Dosbarth Calon Lân.

*Dydd Gŵyl Dewi*

Rhyfedd iawn oedd ein Dydd Gŵyl Dewi eleni gyda chriwiau amrywiol blynyddoedd y cyfnod sylfaen yn dychwelyd yn raddol a'r unig blant o gyfnod allweddol 2 oedd y rhai hynny oedd yn mynychu fel plant gweithwyr allweddol – oherwydd hyn mi gafwyd dathliad dau ddiwrnod er mwyn rhoi'r cyfle i bawb fedru gwisgo mewn gwisg draddodiadol Gymraeg neu mewn dilledyn symbolaidd o Gymru. Bu'r plant wrthi yn dathlu Gŵyl Ddewi gan ddysgu am ein Nawddsant ac am draddodiadau dathlu amrywiol o gwmpas y wlad er eleni bu rhaid amrywio'r dathlu. Ymunodd gweddill plant yr ysgol gyda'r dathlu trwy 'Teams' a braf gweld cynifer wedi mynd ati i wisgo adref hefyd er mwyn ymuno â gweddill yr ysgol. Dydd Gŵyl Dewi gwahanol iawn fu un 2021 ond yn parhau yn arbennig oherwydd y cofiwn taw dyma'r dyddiad y gwnaethom ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd addysgol.

*Llythyron Pwysig*

Un o dasgau plant blwyddyn 3 a 4 dros y cyfnod clo y tymor yma oedd ysgrifennu llythyr i'n haelod seneddol, Mr Ben Lake. Yn y llythyron mi wnaeth y plant gyflwyno eu hunain iddo, holi ambell i gwestiwn am ei waith a'i amser hamdden a hefyd trafod sut roeddent hwy yn teimlo yn ystod y cyfnodau clo gan ofyn hefyd sut roedd y cyfnod yn effeithio arno ef hefyd. Danfonwyd y llythyron gyda môr o gyfarchion pen blwydd iddo a phawb yn gobeithio y bydd yn medru dod i'n gweld pan fydd y sefyllfa yn caniatáu. Roedd yna gyffro mawr rai wythnosau yn ddiweddarach gyda'r plant yn cysylltu o un i un gan arddangos llythyron personol roedd Mr Ben Lake wedi'u hysgrifennu i bawb ac yn cydnabod llythyr pob un plentyn. Roedd y plant wrth eu bodd o gael derbyn eu llythyron ac wedi dysgu llawer am Ben, ei waith a'i ddiddordebau ac ambell i stori fach ddoniol am Boris hefyd. Mae pawb nawr yn aros am gyfle i'w gyfarfod yn go iawn. Diolch Ben.

*Sgwad Barddoniaeth*

Llongyfarchiadau i Alanna, Bela, Caitlin a Kelsey ar gael eu dewis i fynychu gweithdy Sgwad Barddoniaeth yng nghwmni Aneirin Karadog, un o brifeirdd yr Eisteddfod Genedlaethol a hefyd Bardd y Plant. Cafodd y merched gyfle i weithio ar gyfansoddi cerddi gan anelu at gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Cafodd y merched dipyn o brofiad ymhlith plant o ysgolion eraill ac yng nghwmni Aneirin. Pwy fase'n meddwl – barddoni rhithiol – profiad a hanner!

*Diwrnod y Llyfr*

Fel Dydd Gŵyl Dewi bu rhaid dathlu Diwrnod y Llyfr fel cyfuniad o ddathliad ysgol a dathliad rhithiol. Chwarae teg i'r rhai hynny oedd yn dysgu o adref o hyd: mi wnaeth nifer wisgo i fyny ar gyfer y wers ffrydio byw gan gynnwys rhai aelodau o'r staff yn ymuno. Roedd plant y Cyfnod Sylfaen yn bictiwr yn eu gwisgoedd amrywiol a phawb yn gymeriadau o bob math o lyfrau. Derbyniodd pob plentyn daleb i'w

## Colofn **Elin Jones AS**

Wrth i mi ysgrifennu'r golofn yma mae bron i 40% o bobol ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi derbyn y brechlyn yn erbyn y coronafeirws. Mae'r ymdrech i frechu wedi bod yn arwrol a'n diolch i bawb sydd wedi bod wrthi yn trefnu ac yn chwistrellu yn enfawr. Diolch i'n NHS. Bydd yr wythnosau nesaf yma eto yn brysur iawn er mwyn cwblhau y naw grŵp blaenoriaeth. Er fod hyn yn newyddion da, mae'r feirws dal yn fygythiad ac mae angen i ni i gyd fod yn ofalus iawn yn ein bywydau bob dydd.

Mae dwy ymgyrch wedi hawlio fy holl sylw yn ddiweddar. Y cyntaf oedd i sicrhau mwy o gyllid i'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn gwarchod swyddi. Bu hynny'n llwyddiannus a daeth mwy o gyllid o Lywodraeth Cymru. Yr ail ymgyrch yw i weld cynnydd yn y cyllid i'r Cyngor Sir yma yng Ngheredigion er mwyn atal torri swyddi a chadw treth y cyngor mor isel â phosib.

Ddechrau mis Mawrth bu i Blaid Cymru alw pleidlais ar lawr y Senedd er mwyn trechu'r ddeddfwriaeth NVZ newydd sydd wedi cythruddo ffermwyr Ceredigion a phob man. Fe gyflwynodd Plaid Cymru ddadl gref yn erbyn cyflwyniad o'r mesuriadau llawdrwm hyn, ond yn anffodus, serch cefnogaeth gan nifer o'r wrthbleidiau fe syrthiodd y cynnig o 30 pleidlais i 27. Rydym yn ymwybodol y bydd Adolygiad Barnwrol yn erbyn y ddeddfwriaeth yn debygol o gael ei wneud, a bydd Llŷr Gruffydd AS yn gofyn am adolygiad o'r rheoliadau yn syth wedi'r etholiad, os bydd Plaid Cymru mewn grym ar ôl mis Mai. Mae bwriad Llywodraeth Cymru i leihau llygredd afon yn rhy lym ar ein patrwm ffarmo. Mae angen targedu ymyrraeth fel hyn, nid gosod pob ffermwr o dan yr un ddeddfwriaeth.

Hefyd, er fod ein defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus wedi cwympo yn ystod Covid, mae'n braf i groesawu agoriad gorsaf drên newydd sbon Bow Street. Mi fydd hon yn orsaf ddefnyddiol i'r gymuned leol ac i'r Brifysgol yn IBERS Gogerddan. Prysured y dydd y bydd mwy ohonom yn dychwelyd i drenau a bysus.

Mae'r cyfyngiadau yn dechrau llacio bob yn damed; bydd hyn yn codi dipyn ar yr ysbryd, ond tan hynny, cadwch yn saff.

ddefnyddio ar gyfer hawlio llyfr am ddim neu ei ddefnyddio fel cyfraniad at lyfrau eraill. Ymdrech arbennig gan bawb ar gyfer dathlu diwrnod y llyfr.

*PC Hannah*
Diolch yn fawr iawn i PC Hannah am ymuno gyda ni trwy ffrydio byw er mwyn trafod diogelwch ar y We a hefyd diogelwch cyffredinol gyda phlant cyfnod allweddol 2. Cafodd y plant gyfle i wneud penderfyniadau wrth ystyried ambell senario gwahanol gan drafod beth fyddai'r cam doethaf wrth wynebu sefyllfa heriol. Roedd hi'n rhyfedd iawn sgwrsio gyda PC Hannah trwy sgrin ond ni wnaeth hyn amharu ar gyfraniad y plant i'r trafodaethau amrywiol. Gobeithio y cawn gwmni PC Hannah yn y dosbarthiadau y tro nesaf.

*Pythefnos Masnach Deg, Diwrnod Diogelwch ar y We a Sul y Mamau*
Er bod nifer o'r plant yn parhau i fod yn dysgu o adref yn ystod y themâu uchod mi wnaethant lwyddo i ddysgu am bwysigrwydd Masnach Deg a Diogelwch ar y We wrth drafod a chwblhau tasgau amrywiol. Eleni hefyd bu



Rhai o blant CA2 Ysgol Myfenydd yn dathlu Gŵyl Dewi.



Plant Dosbarth Robin Goch Myfenydd yn dathlu Diwrnod y Llyfr.



Croeso nôl blwyddyn 5, Dosbarth Tryweryn!

rhaid sicrhau fod y plant oedd yn parhau i fod adref yn cael cyfle i ddiolch i'w mamau mewn ffordd wahanol a chadw popeth yn ddirgel. Tipyn o gamp ond mi wnaeth y plant waith da o baratoi a gwneud yn siŵr fod pob mam yn cael Sul arbennig. Da iawn blant am ymroi i ddilyn cwricwlwm ehangach er gwaetha'r sefyllfa.

*Marciau Iard*
Bu aelodau o'r pwyllgorau amrywiol yn trafod cais am grant i gael marciau wedi eu peintio ar iard yr ysgol. Cynigiodd y plant syniadau a rhesymau arbennig ar gyfer y cais gan chwarae rôl bwysig wrth lunio'r cais. Derbyniodd y plant newyddion da fod y cais wedi ei dderbyn a'r cam nesaf yw trafod pa farciau i'w cael ac ymhle i'w peintio gan obeithio y bydd yna gyfle i'w defnyddio cyn diwedd tymor yr haf.

*Brysia Wella*
Rydym yn falch iawn o gael cwmni Eryn (Jenkins) yn ôl yn yr ysgol ar ôl iddi dreulio peth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar. Rwy'n siŵr fod y nyrsys a'r meddygon wedi dwli ar gael ei chwmni ac mi roedd Brac yn arbennig o dda am ddod â newyddion i ni amdani. Mae'n hyfryd dy weld yn dod trwy giât yr ysgol mor hapus bob bore ar ôl bod yn reit sâl.

*Eisteddfod Rithiol*
Mae'r plant wrthi ar hyn i bryd yn brysur yn cystadlu ar gyfer eisteddfod rithiol gyntaf yr ysgol. Gan nad ydym yn medru dod at ein gilydd i gael eisteddfod mae'r plant wedi bod wrthi yn recordio ac yn creu darnau o waith adref yn ogystal â thasgau o fewn yr ysgol. Mae yna gystadleuaeth i'r teulu ac i'r anifail anwes felly digon o gyfle i bawb i barhau i fod yn rhan o'r eisteddfod. Er na fydd cadair na tharian na seremoni fel ag y mae yn draddodiadol mi fydd yna fedalau llenyddiaeth a thystysgrifau i bawb. Cewch fwy o hanes yn Y Ddolen nesaf.


**GOLCHDY LLANBADARN LAUNDERETTE**

CYTUNDEB GOLCHI . CONTRACT WASHING
GWASANAETH GOLCHI . SERVICE WASHING
DUFET MAWR . KING SIZE DUVETS
CITS CHWARAEON . SPORTS KITS
**FFON:- 01970612459**
**JEAN JAMES**




Croeso nôl blwyddyn 4, Dosbarth Calon Lân!

*Dathlu'r Pasg*
Er na fydd yr un cyfle ag arfer i ddilyn hanes yr Wythnos Sanctaidd rydym yn diolch i'r Parchedig Smith am ei gyfraniad wrth baratoi gwasanaethau rhithiol ar gyfer y plant sy'n dilyn yr wythnos olaf a gwir ystyr y Pasg. Diolch yn fawr Parchedig Smith.

## O'r gegin

gan Esyllt Ellis Jones Pantlleinau

### Torth banana a swltanas

100g menyn
125g Siwgr mân (*castor*)
225g Blawd codi
125g swltanas
Croen lemwn wedi'i gratio a sudd hanner lemwn
2 wy
3 banana aeddfed

Stwnsiwch y bananas ac ychwanegwch sudd hanner lemwn ar ben y gymysgedd.

Mewn bowlen arall, hufenwch y menyn a'r siwgr, ychwanegwch yr wyau, sultanas, zest lemwn a'r gymysgedd bananas, ac yna'r blawd.

Pobwch mewn tun torth 2 bwys ar wres o 160°C (popty ffan) am 45–50 munud.

# Eisteddfod Y Ddolen

Diolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi Eisteddfod papur bro Y DDOLEN, y gyntaf i'w chynnal ar ôl saib o nifer fawr o flynyddoedd. Roedd hi'n bleser derbyn eich deunydd i'r amrywiol gystadlaethau, o bell ac agos. Mae'n hyfryd gweld fod awch i gystadlu a chynyrchu gwaith o safon. Roedd Ifan a Dilys Jones wedi mwynhau'n arbennig y gystadleuaeth erthygl i'r papur bro gan nodi ei fod wedi bod yn anodd iawn dewis enillydd. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi'r erthyglau yma yn ystod y misoedd nesaf. Yn dilyn sgwrs ffôn gyda'r beirniaid roedd yn amlwg iddynt fwynhau'r profiad er nad oeddent yn cyd-weld bob tro!

Geoff a Bethan Davies, Rhydyfelin sydd wedi bod wrthi'n brysur yn beirniadu'r ysgrifennu creadigol i blant a phobl ifanc. Mae'n rhaid diolch yma i'r ysgolion lleol sydd wedi cefnogi'r Eisteddfod a gwyddom yn iawn nad yw wedi bod yn gyfnod rhwydd yn ddiweddar.

Diolch i'r ddwy set o feirniaid am fod mor barod â'u hamser. Diolch o galon i chi am eich gwaith. Mae Lizzie Spike wrthi'n beirniadu'r crefft, felly daw'r canlyniadau hynny mis nesaf yn y papur. Diolch hefyd i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru am noddi'r Eisteddfod. Mi fydd gwobrau'r enillwyr ar y ffordd yn y post yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn ystod y misoedd nesaf cewch fwynhau blas o'r cystadlu wrth i ni gyhoeddi'r buddugwyr yn yr amrywiol gystadlaethau. Mwynhewch y wledd.

A felly dyma ni – dychmygwch fod y drysau ar gau a'r utgyrn yn seinio! – wrth i ni gyhoeddi enillwyr Eisteddfod Papur Bro Y DDOLEN 2021.

## Canlyniadau

**Limrig**
1. Megan Richards, Brynderi, Aberaeron
2. Megan Richards, Brynderi, Aberaeron
3. Aled Evans, Blaenwaun, Trisant

**Brawddeg**
1. Gaenor Mai Jones, Hafod, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf
2. Megan Richards, Brynderi, Aberaeron
3. Carol Thomas-Harries, Yr Aelwyd, Blaenannerch

**Neges mewn potel**
1. Aled Evans, Blaenwaun, Trisant
2. Eirlys Jones, Capel Seion
3. Mari Morgan, Tynewydd, Llanrhystud

**Erthygl i'r Papur Bro**
1. John Gwynn Jones, Awelon, Capel Seion
2. John Gwynn Jones, Awelon, Capel Seion
3. Mari Morgan, Tynewydd, Llanrhystud a John Jenkins, 40 Cwm Aur, Llanilar

**Deg Gair Tafodieithol**
1. Aled Evans, Blaenwaun, Trisant
2. Iona Davies, Y Nyth, Llanilar
3. Mari Morgan, Tynewydd, Llanrhystud

**Coginio**
1. Lleucu Haf Thomas, Aberteifi
2. Gaenor Mair Jones, Hafod, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf
3. Gaenor Mair Jones, Hafod, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf

**Ffotograffiaeth**
1. Caryl Jones, Llerneuaddau, Ponterwyd
2. Bethan Rosser, Gwynant, Llanrhystud
3. Gaenor Mair Jones, Hafod, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf ac Eleri Jones, Sŵn yr Awel, Ffosyffin

**Cerdd ddigri neu Stori ddigri**
1. Eryl Rees, Tŷ Capel, Tregaron
2. Megan Richards, Brynderi, Aberaeron
3. Aled Evans, Blaenwaun, Trisant

**Ysgrifennu Creadigol – Plant a phobl ifanc - Blwyddyn derbyn, 1 a 2**
1. Gwen Rhys Galvin, Ysgol Llangwyryfon
2. Lois Rees, Ysgol Llangwyryfon a Twm Lewis, Ysgol Llangwyryfon
3. Mabon Dafydd ac Elsa Evans, Ysgol Llanfihangel y Creuddyn

**Blwyddyn 3 a 4**
1. Jake Williams, Ysgol Myfenydd, Llanrhystud
2. Kielan Mills, Ysgol Myfenydd, Llanrhystud a Meia Elin Evans, Ysgol Llanfihangel y Creuddyn
3. Iago Thomas Powell, Ysgol Llanfihangel y Creuddyn a Haf Griffiths, Ysgol Llanfihangel y Creuddyn

**Blwyddyn 5 a 6**
1. Aron Thomas Ysgol Llangwyryfon a Sammy Yarwood Ysgol Llangwyryfon
2. Gwenan Jones, Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd
3. Chloe Ball Ysgol Llangwyryfon a Alanna Jones, Ysgol Myfenydd, Llanrhystud

**Blwyddyn 7,8 a 9**
1. Bethan Rosser, Gwynant, Llanrhystud
2. Lleucu Haf Thomas, Gwynant, Aberteifi


1af


2il


3ydd


3ydd

# John Tynygraig yn chwilio gwraig

Fe ddywedaf i chi stori
Am foi bach yn y wlad,
Yn byw ar ben ei hunan
'Rôl colli'i fam a'i dad.
Gadawsant iddo'r cyfan
Y fferm a'r pres i gyd,
Ond wedi cael y cwbwl
Anhapus oedd ei fyd!

Meddyliodd John un bore
Y dylai ffeindio gwraig
Er mwyn cael byw yn hapus
Ar aelwyd Tanygraig.
Rhaid fydd cael cyfrifiadur
A myned ar y We,
Dywedodd boi drws nesaf
Mae hwnnw fyddai'r lle!

Aeth lan i Aberystwyth
A mewn i *Phones R Us*,
A phrynu cyfrifiadur
Yn wir heb fawr o ffys,
Eglurodd wrth y ddynes
Beth oedd ei syniad mawr,
Dywedodd hithau wrtho
'Fe helpa i chi nawr'.

Ysgrifennwyd pwt o lythyr
A hefyd tynnu llun
A'i roi i mewn yn daclus
Yn y *wonderful machine,*
Gwasgu rhai botymau
A wedyn ffwrdd â fe,
Rhyfeddod o ryfeddod
Roedd John nawr ar y We!

Egseitment bore trannoeth
A gwasgu'r botwm '*On*'
A gweld yr holl atebion
O Lambed i Hong Kong,
Bu John am bedwar diwrnod
Yn eu darllen nhw i gyd
A daeth i benderfyniad
Bod un yn mynd â'i fryd!

Roedd hon yn ferch olygus
A'i gwallt mor ddu â'r frân,
Doedd John erioed 'di gweled
Dim un mor bert o'r blaen,
Ei henw hi oedd Tik Tok
A John gath bach o sioc,
Pan ddywedodd fod ei chartref
Yn ninas fawr Bangkok!

Rhaid nawr oedd gwneud trefniadau
Dim gwahaniaeth am y gost
Bu'n disgwyl am dros wythnos
I'r pasbort ddod drwy'r post.
O'r diwedd lan i Aber
A neidio ar y trên
I fyny i Fanceinion
I ddal yr eroplen!

Roedd John erioed 'di hedfan
Fe deimla'n nerfus iawn
Pan aeth e mewn i'r eroplen
A'i gweld hi bron yn llawn.
Fe gafodd sedd gyffyrddus
Yn edrych dros y *Wing*
Roedd honno yn un anferth
Edrychai John yn syn!

Y plên aeth lan i'r awyr
A John yn cydio'n sownd,
Daeth merched pert mewn cotiau coch
I ddechrau cerdded rownd.
Gofynnodd un o'r merched
*'Would you like a cup of tea?'*
Atebodd John ar unwaith
*'That sounds good to me!'*

A John aeth nawr i gysgu
Bron am ddeuddeg awr,
Oherwydd pan ddihunodd
Y plên oedd ar y llawr!
Roedd e wedi cyrraedd
Yr *airport* yn Bangkok.
Yn awr yn reit egseited
I weled ei Tik Tok!

Rhaid dilyn cyfarwyddiade
A gafodd gan Tik Tok,
Sef eistedd ar y boncyff
Ar bwys y '*Tower Clock*',
A dyma hi yn cyrraedd
Mewn *mini skirt* fach las,
Aeth coesau John fel jeli
A'i galon aeth ar ras!

Fe redodd hithau ato
A chydio ynddo'n dynn,
Roedd John ddim yn gyfarwydd
Yn wir â'r pethau hyn.
*'Oh, John it's nice to meet you*
*I have so much to tell,*
*We will now get a taxi*
*To go to the Hotel!'*

Rôl cyrraedd yr ystafell
I mewn â nhw eu dau,
A gyda chlec fach sydyn
Y drws oedd wedi cau.
Roedd John nawr yn bryderus
I wybod beth i'w wneud
Ond wir yn waeth na hynny
Beth oedd e fod i ddweud!

Tik Tok siaradodd gyntaf
*'John bach don't look so glum*
*We have got the whole weekend*
*In which to have some fun!*
*We'll now go to a restaurant*
*It's only down the street,*
*I'm sure you are hungry*
*We'll have something nice to eat!*

Cyrhaeddant at y *restaurant*
A ffeindio bwrdd bach neis,
John gydiodd yn y fwydlen,
Wel, 'na beth oedd syrpréis,
Nid oedd yn medru deall
Un gair o'r fwydlen hon,
Dim sausage, egg, chips a beans
O! dyna beth oedd siom!

Y bwyd a ddaeth o'r diwedd
Sef bowlen fawr o reis
A phlated mawr o gregyn
Pob un yn wahanol seis!
Dywedodd Tik Tok wrtho
*'Eat up my darling John*
*These plates are full of oysters*
*You'll need them later on!'*

Fe fwytodd John y plated
A hanner ei phlât hi,
A twrio mewn i'r bowlen reis
Fel petai e'n JCB!
Ar ôl iddo glirio'r cwbwl
Fe ddywedodd e mewn sbel
*'I think we should get going*
*Lets go back to the hotel.'*

Rôl cyrraedd nôl i'r gwesty
Fe dynnodd John ei got
A thynnu ei esgidiau,
Dywedodd hi Tik Tok,
*'John we must now follow*
*The tradition is you see,*
*You must now have a shower*
*Before you do join me!'*

Aeth John i mewn i'r bathrŵm
A throi y dŵr ymlaen
A golchi wnaeth â Lifebuoy coch
I neud siŵr fod e'n lân.
Garglo gyda *mouthwash*
A lot o *aftershave*,
Digon o *ddeodrant*
Roedd John mewn seithfed nef!

Fe ddaeth John mas o'r bathrŵm
A dyna ble oedd hi
Yn eistedd ar y gwely
Mewn *nightdress see-through* du,
Teimlodd John yn sydyn
Bod yr *oysters* wrth eu gwaith
Pan wedodd Tik Tok *'Come to bed'*
Dim eisiau dweud dwy waith!

Aeth John i mewn i'r gwely
Yn wir yn barod nawr,
A'r gwely oedd yn ysgwyd
Fel rhyw ddaeargryn mawr!
Yn sydyn ma fe'n stopo
A neidio mas yn gloi
Roedd wedi cael ei dwyllo
Do wir, gan *Lady Boy*!

**Eryl Rees (1af)**

# Erthygl Buddugol yr Eisteddfod Paradwys y Paith

Tardd y Paith ar gae Blaenpaith ar fferm Penuwch Fawr, Capel Seion. Rhewyn yw'r tarddle a lifa'n araf lawr y cae a than y ffordd sy'n arwain o Bant y Crug i New Cross. Llifa'n gyflymach heibio Nant y Benglog Ucha ac Isaf lle bu'r dŵr yn oeri'r menyn, a throi rhod ddŵr rhai ffermydd. Heibio Nantrhudd yn nant fechan a'r ffermdy yn enwog lle ganwyd David Paith Jones, y llenor a'r hynafiaethydd yn 1838. Ymuna'r nant â llyn enfawr lle gynt gwelid alarch cas iawn a phawb yn ofnus o'i bresenoldeb. Nid nepell gwelir safle Tanrhiwfelen lle ganwyd yn 1822 John Roberts (Ieuan Gwyllt) y cerddor a'r emynydd. Bu Rhos-yr-ychain (Rhoserchan), Tyncwm a Nantybenglog yn gartrefi pregethu'r efengyl cyn dyfodiad y capel presennol. Yn Gilfach goch trigai meddyg enwog, ac yno hefyd roedd hen ffynnon Rufeinig, gerllaw Sarn Helen yr hen ffordd Rufeinig. Buan y gwelwn gip o'r ysgol Gynradd a godwyd yn 1872 gan y Powells, Nanteos gyda Robert Jacquet yn brifathro yn 1875, gŵr a fu'n allweddol i sicrhau gwasanaeth llythyron i'r gymdogaeth. Yn Nanteos Home Farm (Buildings) gwelir cloch ar y to a fu'n galw'r gweision i fwyd yn ddyddiol am flynyddoedd. Plasdy enwog Nanteos ddaw i'r golwg toc a'r Paith yn ymddolenni'n artisitig cyn llifo i lyn enfawr prydferth. Tua 1800 roedd Nanteos yn berchen tua deng mil ar hugain o erwau a'r bobl leol yn rhentu'r ffermydd.

Cedwid telynor yn Nanteos a fu'n chwarae'r delyn am chwedeg naw o flynyddoedd bob Nadolig yn ddi-dor, a chlywid yr eos yn canu ar y dolydd. O Benparcau i New Cross croesa'r Paith y briffordd, a hefyd islaw tan y briffordd a red rhwng Penparcau a Rhydyfelin ger Tanws. Diwedd taith ddiddorol y Paith yw ymuno â'r afon Ystwyth fawr ger Tancastell a Gosen ar ei thaith i grombil y môr. Yn sicr mae enw'r Paith wedi dylanwadu ar hanes y fro ers cenedlaethau a phawb yn falch o fod yn un o blant y Paith.

Bu Ysgol Sul y Paith a diwygiad grymus Dyffryn Paith yn effaith mawr i ddylanwadu ar fyd crefyddol Seion a'r fro a sonnir yn aml am hyn yn ein Hysgol Sul oedolion lewyrchus.

Wedi dychwelyd i'w sir enedigol o Lundain sefydlodd Muriel Evans ac eraill barti cryf o artisitaid lleol penigamp i ddiddori'r broydd o dan yr enwau 'Clychau'r Paith', a'r enwog 'Paith Minstrels'.

Wedi i Gyngor Sir Ceredigion ballu gwrando ar ein bro, a phenderfynu cau'r Ysgol Gynradd, daeth yr adeilad yn ôl i berchen i'r ardal ac fe'i galwyd yn Neuadd y Paith.

Mae nifer o dai wedi cael yr enw ar ôl y Paith fel Paith Nant ger Barnet, Paith Olwg yn Seion a Paith Eos gyda'r ardd brydferth yn Moreia. Sefydlwyd bridfa o Gobiau Cymreig y Paith gan y teulu Phillips gynt o Nantybenglog a fu a sydd yn enwog drwy'r byd.

Mae telynores y Paith yn enwog a'i llwyddiant yn ysgubol drwy'r wlad.

Yn yr wythdegau sefydlwyd Cymdeithas y Paith ac mae'n dal i fynd yn llewyrchus yn flynyddol. Wrth ddathlu chwarter canrif o fodolaeth y Gymdeithas yn 2008 cyflwynodd y ddiweddar Nesta Evans benillion o'i gwaith ar y noson.

'Tra pery'r Paith i lifo
Ni phalla seiniau'r iaith
A'r etifeddiaeth fydd yn ddiogel
Yng Nghymdeithas lân y Paith.

Diddorol a hanesyddol yw enwau'r ffermydd ym mro'r Paith.

Bwlch Bach sydd ar y bryncyn
Bwlch Mawr sy'n is i lawr,
Pencwarel dafliad carreg
Pantgwyn – golygfa fawr.
Tu hwnt i'r tro – Rhoslawdden,
I'r golwg daw Wernddu,
Lasgrug a Troedrhiwlasgrug,
Pencefn a'r *buildings* lu.

Rhoserchan – y fawr a'r fechan
A'r rhod sydd yn Tyncwm,
Tynewydd nawr yn garej,
A Rhiwarthen sydd ynghlwm.
Tyncoed, Nantrhudd ac Arwel,
A Nant-y-benglog – ddau
Gwarallt, Bryngwyn a'r Gilfach
A Ffynnon oer sy'n llai.

Tafarn Crug Isa, ac Ucha,
A Penwuch Fawr sy'n gawr,
Penrhiw a Nant yr Onnen,
Y Llwyn a'r Sarnau Fawr.
Cwm Seiri yn dwyn atgofion,
Bryn Gwenlli welwn toc,
Ffoslas, Tŷ Gwyn a'r Ceunant,
Pant Mawr a dyna'r lot.

O bydded i'r Paith barhau 'fel y cadwer i'r preswylwyr a ddêl yr hanes cyfoethog a fu'.

**John Gwynn Jones**

# Brawddeg ar y gair PANTGLAS

Parodrwydd aberth nyrsys tra'n gofalu, leddfodd amhleserus salwch.
**Gaenor Mai Jones (1af)**

Pantyfedwen a'i nodau telynegol ganwn lawer ar Sabathau.
**Megan Richards (2il)**

Peidiwch aberthu naturioldeb tirwedd gan lanast a sbwriel.
**Carol Thomas-Harries (3ydd)**

# Ysgrifennu Creadigol



## Fy Arwr

Enw fy arwr i ydy Ffion a mae hi yn 47 oed. Hi yw fy Mam. Mae ganddi lygaid brown a gwallt brown fel dail yr Hydref. Mae hi yn eithaf tal. Hoff liw Mam ydy gwyrdd gan ei bod yn hoff iawn o fyd natur. Mae hi yn briod â Joe. Mae hi yn gweithio ym myd celf. Mae'n dda am ddangos gwaith celf pobl eraill i fi er mwyn i fi ddysgu gwneud lluniau yn well. Mae'n hoffi eistedd lawr ond weithiau bydd yn cwympo i gysgu!! Mae Mam yn mwynhau chwarae gyda fi a fy mrawd. Byddwn yn chwarae gemau yn y tŷ, mynd allan am dro neu mynd ar y beics ar bwys y môr yn Aberystwyth. Mae Mam yn coginio cacennau blasus – ar ben blwydd Dad fe wnaeth gacen panas, croen oren ac afal!! Bydd Mam wastad yn cael sgwrs â fi cyn fy mod yn mynd i gysgu. Mae hi yn arwr i fi!

**Gwen Rhys Galvin (1af)**



## Fy Arwr

Enw fy arwr i ydy Boris! Na dim Boris Johnson yw fy arwr ond fy ngath! Mae Boris yn llwyd golau fel y cymylau ar ddiwrnod cymylog. Ma'n eithaf blewog! Mae ganddo ddwy lygad sgleiniog fel dwy seren a dwy glust, trwyn smwt, chwech whisger, pedair coes a chynffon. Mae'n ganolig o ran maint a tua un oed.

Cafodd yr enw Bori achos daeth i fyw gyda ni ar ddechrau y coronavirus. Roedd Boris Johnson ar y teledu a mi ôn i yn hoffi'r enw! Hoff fwyd Boris ydy llysiau a cig. Mae'n cysgu lawr stâr a weithiau yn mynd i fyny i orwedd ar y gwely ond mae'n hoffi cysgu yn unrhyw le! Mae'n gwneud i fi chwerthin hefyd. Bydd yn dringo to y tŷ haul, neidio dros ddŵr yr afon a neidio i'r awyr pan fydd wedi cael ofan. Mae'n hoffi chwarae cuddio hefyd. Dwi yn hoffi Boris achos ei fod yn fflwfflyd. Weithiau bydd yn fy nghrafu ond mae'r ddau o ni yn dod nôl yn ffrindiau mawr.

**Twm Lewis (2il)**



## Fy Arwr

Mam ydy fy arwr i. Ei enw ydy Ellen a mae hi yn 43 oed. Mae ei gwallt yn felyn fel yr haul a mae ganddi lygaid glas fel y môr yn yr haf. Mae ganddi wên bert. Mae mam yn eithaf byr. Mae hi yn briod â ffermwr o'r enw Dyfrig. Mae hi yn cadw yn brysur iawn yn gwneud gwaith papur y ffarm. Roedd hi yn arfer bod yn athrawes.

Mae ganddi bedair o ferched – fi, Lisa, Eirlys a Hawys. Mae Mam yn mwynhau gwneud pethau gyda ni ond weithiau mae'n hoffi cael tawelwch!! Mae'n hoffi coginio – mae'n gwneud crempog blasus iawn! Mae hi yn arwr i mi achos ei bod yn gofalu amdana i ac yn garedig iawn, iawn. Mae'n rhoi y cwtshus gorau yn y byd i gyd.

**Lois Rees (2il)**



## Portread o Mam

Hoff beth fy Mam ydi fi a fy mrawd Gwern. Person doniol yw fy Mam achos mae'n dweud jôcs yn fy llyfr jôcs ac mae'n hela fi i chwerthin. Mae fy Mam i efo llygaid brown fel cneuen. Gwallt syth brown golau sydd efo fy Mam. Person bert iawn yw fy Mam – fel blodau'r gwanwyn. Person gweithgar yw fy Mam achos mae'n tacluso'r tŷ, golchi llestri a gweithio trwy'r dydd yn yr ysgol. Mae fy Mam i mor dawel â llygoden achos mae'n gwneud gwaith ar y cyfrifiadur. Mae fy Mam mor hapus â'r gog. Person arbennig iawn yw fy Mam achos mae'n ofalgar iawn. Fy Mam i yw y fam orau yn y byd mawr crwn.

**Mabon Dafydd (3ydd)**



## Portread o Mam

Mae fy Mam i yn ddoniol iawn achos mae hi yn dweud jôcs doniol. Person gwych yw fy Mam i achos mae yn gweithio yn yr ysgol ac yn edrych ar ôl ni. Hoff beth fy Mam yw Dad, fi, Meian ac Emrys sef fy nheulu. Lliw gwallt fy Mam i yw brown tywyll. Llygaid brown golau sydd gan fy mam i. Mae fy Mam mor hapus â'r gog bob dydd. Mam arbennig iawn yw fy Mam achos mae hi yn ofalgar ac rydw i yn caru fy Mam i'r lleuad a nôl.

**Elsa Evans (3ydd)**

O'r Archif
(Awst 1979)

# PORTREAD Y MIS

## A Phwy yw Ifan Odwyn?

Mae'r rhan fwyaf ohonoch chwi ddarllenwyr selocaf *Y Ddolen* yn siŵr o fod yn adnabod Ifan Odwyn yn dda, ac os nad ydych yn ei adnabod, 'rydych yn siŵr o fod wedi clywed amdano. Bardd, llenor, hanesydd lleol a cherddor sy'n byw bellach yn Llanfarian.

IE, Evan Jones.


Cefais gyfle i sgwrsio gyda'r gŵr arbenning hwn yn ei gartref yn ddiweddar, a phan ffoniais i ofyn pryd fyddai'n gyfleus i alw arno, canfûm oddi wrth ei wraig ei fod allan yn gweithio yn yr ardd. Dipyn o gamp i un sy'n tynnu 'mlaen ac a anwyd yn niwedd y ganrif o'r blaen.

Ganed Evan Jones y degfed o ddeuddeg o blant ar aelwyd Ty'n Cae, ger Tregaron Bellach mae'r bwthyn hwnnw'n adfail ond mae'r atgofion amdano a'r bywyd cynnar hwnnw yn fyw iawn yng nghof Evan Jones. Mae'n debyg mai oddi wrth ei fam yr etifeddodd y gallu i fwynhau ac ymddiddori mewn cerddoriaeth, ac mae o linach ei dad y daeth y gyneddf i farddoni a llenydda sy'n gymaint rhan o'i fywyd ers blynyddoedd maith. Gyda llaw, mae'r Parch Dafydd Jones Blaenplwyf yn gefnder iddo. 'Roedd elfen canu yn ei chwiorydd i gyd ond ni chawsant fawr o gyfle i ddatblygu eu doniau. Daeth un brawd iddo i amlygrwydd fel arbenigwr aredig, sef y diweddar John Jones, Maes Mawr.

Un o'r anfanteision pennaf a brofodd Evan Jones mewn cysylltiad a'i ddiddordebau llenyddol oedd bod heb athro barddol fel sy'n gyffredin ymysg y beirdd. Nid oedd unrhyw un cymmwys yn ardal Tregaron hyfforddi egin feirdd yn y cyfnod hwnnw a bu rhaid iddo ddilyn yn bennaf gyfrol Dafydd Morgannwg.

### Canu fel eos

Ond os na chafodd athro barddol, fe gafodd ysgolfeistr da iawn yn Osborne Jones, (brawd Artemus Jones) yn Ysgol Swyddffynnon. Ef roddodd sylfaen i Evan


Evan Jones

Jones i feithryn ei ddiddordeb mewn hanes bro ac ardal, ac fe'i hyfforddodd i werthfawrogi crefft a thraddodiad ei gyndadu. Gwraig yr ysgolfeistr a arferai roddi gwersi cerddoriaeth i'r plant ac fe gofia hyd heddiw ei geiriau amdano, 'Mae Ianto Ty'n Cae yn canu fel eos.' Arferai J.T. Rees hefyd ddod i Dregaron yr adeg honno i roddi gwersi cerddoriaeth ac fe gafodd Evan Jones gyfle yn ei ddosbarthiadau i ddysgu tonic solffa a gweithiau cerddorol safonol. Erys hyd heddiw ei atgofion am berfformiadau uchelgeisiol yn y capel, fel 'Bro Bugeiliaid' gan Dr David Evans. Y capel hefyd a roddodd gyfle iddo gystadlu mewn eisteddfodau blynyddol ac 'roedd bri mawr yr adeg honno ar eisteddfodau lleol megis Eisteddfod y Groglith, Llanddewi Brefi. Yn ei eiriau ei hun, 'y capel roddodd y cyfle i mi ddatblygu fy hunan'. Cafodd Evan Jones flas ar ysgrifennu'n ifanc iawn. Mae ganddo gyfres o erthyglau yn rhai o'r *Cymru'r Plant* cynharaf yn trafod 'Cerddorion y Byd', ac mae wedi cystadlu ac ennill droen yn Eisteddfodau Pantyfedwen a'r Genedlaethol. Daeth nifer o wobrau eraill i'w ran yng nghystadlaethau Llyfrgell Dyfed ac eisteddfodau lleol.

### *Cymeriadau ffraeth*

Ei brif symbyliad i ysgrifennu yw ei serch angerddol at fro ei febyd. Ymddidora yng nghrefftau a chymeriadau'r cymdogaethau hynny, yr hen enwau tlws a'r nodweddion a berthyn iddynt, ac fel y gwelir o'i gyfrolau mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn cofnodi hanesion amdanynt . Hen gymeriadau fel John Rowlands, storiwr ffraeth a naturiol, a fu'n saer llongau yn Llundain ac a honnai ei fod ar delerau agos iawn a'r frenhines, cymaint felly meddai, nes y cai hanner coron ganddi bob tro y deuai yn ôl ar daith i'w hen ardal.

Ni fuasai portread o Evan Jones yn gyflawn heb rester o'i lyfrau

*Ar Ymylon Cors Caron* 1967
*Cerdded Hen Ffeiriau* 1972
*Balchder Crefft* 1976
*Cymdogaeth Soar y Mynydd* 1979

Da deall fod gobaith am gyfrol ddiddorol arall ar y Mynydd Bach a'r cyffuniau yn y dyfodol. Mae wrthi ar hyn o bryd yn casglu ac yn didoli deunydd ar ei chyfer ac mae ei fryd yn bennaf ar gofnodi hanes y llenorion, y tlodi a'r ymfudo mawr a fu oddi yno i'r America, a Rhyfel y Sais Bach a helyntion tebyg. 'Does dim dwywaith nad yw Evan Jones mor brysur heddiw ag y bu eriod. Mae Dinah, ei wraig, ac yntau yn briod ers 35 mlynedd, ac wedi cartrefi yn Nhrewen, Llanfarian ers 1952. Bu hi yn ysgolfeistres yn yr hen ardal am gyfnod maith o dros bum mlynedd ar hugain. Nid yn unig mae ef yn ymhel â'i lyfrau, ond mae'n cefnogi sefydliadau lleol Llanfarian a'r cylch hyd eitha ei allu. Mae'n gefnogwr brwd i'r *Ddolen*, yn weithgar gydag Eglwys Gosen, yn pregethu'n achlysurol ac yn meddwl yn fawr o'r Ysgol Sul. Ar hyn o bryd mae'n paratoi llyfryn bach ar gais ei eglwys i gofnodi canmlwyddiant Ysgol Sul Pentrebont ym mis Hydref.

### *Aelod o'r Orsedd*

A pham yr enw Ifan Odwyn? Wel, fe'i urddwyd er anrhydedd eleni yn Eisteddfod Caernarfon yn un o aelodau'r Orsedd. Dyma sut y disgrifwyd ef wrth ei gyflwyno 'Cerddor a llenor gwlad arbenning ei gyfraniad yn hen sir Aberteifi. Arholwr am flynyddoedd i Goleg y Tonic Solffa. Awdur nifer o gyfrolau gwerthfawr'.

Mae'n nodweddiadol o Evan Jones iddo ddewis dwyn enw plwyf Llanbadarn Odwyn yn y cyswllt hwn – dyma dir ei hen deidiau ac yn naear un o Eglwysi mwyaf diddorol y sir yma mae beddrodau ei dadau. Yma mae'r gwreiddiau.

Un o'm cwestiynau olaf i Evan Jones oedd, sut yr hoffech gael eich cofio gan yr hen fyd yma? Ei ateb sicr a phendant oedd 'fel gwerinwr a chyfaill i bob Cymro a Chymraes'.

Ann Ffrancon Jenkins


**Siop Blodau'r Bedol Florist**

*ENILLYDD MEDAL AUR SIOE CHELSEA YN 2016*



Moelifor Terrace, Llanrhystud SY23 5AA
**Ebost** blodaurbedol@aol.com
**Ffôn** 01974 202233
**Symudol** 07763 282548

- *Arddangoswr NAFAS cymwysedig*
- *Trefnydd blodau arbenigol ar gyfer priodasau*
- *Pob Achlysur Arbennig*
- *Angladdau*
- *Gweithdai Trefnu Blodau*
- *Cynigir Gwasanaeth Personol i ateb eich holl ofynion*
- *Gellir trefnu ymweliadau yn y cartref yn ystod profedigaeth i drafod blodeugedau*

# Aros i feddwl

## Gan Beti Griffiths

**'Tea-cosy Pete'**

Yn ystod y misoedd diwethaf yma daethom yn fwy ymwybodol o effaith 'Unigrwydd' ar bobl ac anodd yw sylweddoli ei fod yn effeithio ar gymaint o bob oedran a chenhedlaeth yn ein cymunedau. Cofiwn, er hynny mai poen enaid yw 'Unigrwydd' a gall daro pan fyddwch yn rhan o'r dorf neu yn byw wrth eich hunan. Enghraifft glasurol o 'Unigrwydd' yw stori Blodeuwedd yn y Mabinogion. Roedd wedi ei chreu o flodau'r maes ac o ganlyniad doedd ganddi ddim teulu, dim tad na mam na brawd na chwaer. Gwn innau erbyn hyn am brofiad felly wedi colli fy nheulu agosaf i gyd a gall fod yn galed ar adegau, credwch fi! Gwrandewch ar Blodeuwedd yn arllwys ei chalon allan yn nrama fawr Saunders Lewis:

> Minnau, nid oes imi ddim un cynefin
> Yn holl ffyrdd dynion,
> Chwilia Wynedd draw
> A Phrydain drwyddi,
> D'oes dim un bedd a berthyn i mi
> Ac mae'r byd yn oer, yn estron imi
> Heb na chwlwm car na chadwyn cenedl...


Bu'r misoedd olaf yma hefyd yn gyfle inni feddwl am y rhai di-gartref sy'n byw ar ein strydoedd, testun torcalon! Diolchwn hefyd am y gwirfoddolwyr hynny sydd wedi sicrhau fod y Banciau Bwyd wedi parhau i weithredu. Maent yn werth y byd! Chwith hefyd yw gweld pobol yn parhau i gysgu allan yn y gwynt a'r glaw heb le i droi ac mor hawdd yw mynd o'r tu arall heibio.

Rhyw chwe mlynedd yn ôl ym mis Ionawr yn ninas Abertawe clywsom am farwolaeth person di-gartref a'i lys-enw oedd 'Tea-cosy Pete' am mai dyna a wisgai fel cap. Un diwrnod daeth 'Tea-cosy Pete' o hyd i waled ar y palmant. Yn ogystal ag arian roedd trwydded yrru y perchennog yn y waled a'i gyfeiriad. Penderfynodd 'Pete' gerdded rhyw dair neu bedair milltir i gartref y perchennog i drosglwyddo'r waled a'i chynnwys iddo. Gwrthododd dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth. Daeth i sylw'r cyfryngau. Beth bynnag ei gefndir, roedd gan 'Tea-cosy Pete' werthoedd ac yn ôl yr hanes, bu dinas Abertawe mewn galar ond yn rhy hwyr! Ym Mhrifwyl yr Urdd yr un flwyddyn enillodd merch o Ysgol Bro Myrddin wobr am gyfansoddi soned i gofnodi'r digwyddiad. Mae'n werth ei darllen!

> Ni wyddom ddim am bridd dy achau di
> Na'r gwreiddiau a fu'n dal dy deulu 'nghyd,
> Na chwaith pwy glywodd gyntaf sain dy gri
> Na phwy fu unwaith yno'n siglo'th grud,
> Ond gwyddom am dy wên ar noson oer
> O'r man berchnogaist ti ar gornel stryd,
> A gwres dy eiriau cynnes dan y lloer,
> Lle cysgaist gan gofleidio d'eiddo i gyd,
> A thithau wedi cau dy lygaid llon
> Ynghanol oerfel Ionawr ger y Sgwâr
> Gadewaist ddinas gyfan, ac mae ton
> O alar heno am dy gwmni gwâr,
> Fe fwriaist wreiddiau coll dy fywyd di
> Yn ddwfwn iawn ar dir ein c'lonnau ni.

---

## Llyfr Newydd



**Rhwng Teifi, Dyfi, a'r Don** golygwyd gan Idris Reynolds, lluniau gan Iestyn Hughes, £12.95 / clawr caled / lliw llawn, 978-1-911584-35-3 (Cyhoeddiadau Barddas)

Mae harddwch sir Ceredigion wedi ysbrydoli nifer o feirdd ar hyd y blynyddoedd ac yn y gyfrol newydd hon ceir cerddi gan feirdd amrywiol sy'n canu am y sir ei hun: am leoedd, adeiladau a phobl sy'n creu'r sir hynod hon mor gyfoethog ei diwylliant. Mae'r gyfrol yn cynnwys lleisiau amrywiaeth hynod o feirdd – o unigolion sydd wedi byw yn y sir erioed i fyfyrwyr a beirdd sydd wedi mudo i Geredigion ac ymgartrefu mewn gwahanol rannau o'r sir. Canolbwyntir yn bennaf ar gerddi diweddar ond ceir hefyd ambell i hen ffefryn – oll yn gerddi gan feirdd sy'n nodedig am eu cyswllt â Cheredigion. Dyma gyfrol clawr caled sy'n dathlu diwylliant a harddwch y sir.

Meddai Idris Reynolds: 'Clywais ddywedyd mai Duw ar y trydydd dydd a greodd y dirwedd ond fod ôl llaw dyn ar y tirlun. Yn y gyfrol hon cawn gipluniau personol o dir a daear Ceredigion, boed dirwedd neu dirlun, trwy lygaid ei beirdd. I gyd-fynd â'r farddoniaeth ceir ffotograffau o'r sir gan Iestyn Hughes ac mae'r cwbl wedi ei osod yn gelfydd i greu cyfrol apelgar iawn yn weledol.

Mae Idris Reynolds yn Brifardd ac yn fardd toreithiog – ac yn awdur nodedig hefyd. Enillodd ei gyfrol *Darn o'r Haul yn Rhywle, Cofio Dic* wobr Llyfr y flwyddyn yn 2017. Ef oedd enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llanrwst, 1989, a hefyd Eisteddfod Aberystwyth yn 1992. Mae'n byw ym mhentref Brynhoffnant, Ceredigion, gyda'i wraig Elsie.

Mae Iestyn Hughes yn dod o Fôn yn wreiddiol ond wedi ymgartrefu yng Ngheredigion ers blynyddoedd – yn Bow Street. Tynnu lluniau o dirluniau a phortreadau o bobl yw ei brif faes arbenigol, ac yn 2016 fe gyhoeddodd y gyfrol ddwyieithog llawn lluniau am y sir: *Ceredigion – wrth fy Nhraed* (Gwasg Gomer).



Uchafbwyntiau'r mis ar BroAber360.cymru

GAIR GAN YR YSGOGYDD



Helo bawb! Mae llwyth o straeon da wedi bod ar BroAber360 dros y mis diwethaf, gan gynnwys y rhai isod. Hefyd, rydym wedi cynnal sesiynau her-straeon - os oes gennych ddiddordeb cael sesiwn i'ch pentref, neu'ch mudiad, cysylltwch â daniel@bro360.cymru

LLYFR COFIO'R CWM




Mae mor bwysig i gofnodi hanesion ein cymunedau cyn i'r straeon ddiflannu am byth. Felly mae'n grêt gweld cyhoeddiad y llyfr yma sydd yn trafod hanes, treftadaeth a chymuned Cwmystwyth - darllenwch y darn i weld sut i gael gafael ar gopi.

HYRWYDDO DIOGELWCH AR Y FFERM

Diolch i Enfys Medi am y darn yma sydd yn adrodd hanes Dewi Davies o CFfI Llanddeiniol, a oedd yn fuddugol mewn cystadleuaeth creu fideo am ddiogelwch beic cwad. Gallwch ddarganfod mwy am yr hysbyseb, Dewi, a'i gyngor diogelwch yn y darn.



SIOP LLANILAR YN CAEL ESTYNIAD PARHAOL



Mae'n bwysicach nag erioed i gefnogi ein busnesau lleol, felly roedd hi'n grêt i glywed fod Siop Llanilar wedi cael estyniad parhaol yn ddiweddar. Gallwch ddarganfod mwy yn y darn.

Ffili aros tan y papur nesa'? – BroAber360.cymru



Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol



City & Guilds citb safe

CONTRACTWYR
Pris Teg. Fair Price.
CONTRACTORS

Adnewyddu (tu fewn a thu allan i'r tŷ) Plymio a gwresogi (olew a nwy) Garddio a thirlunio Picedwr ceirios a gweithredwr i'w llogi (estyn I 9 medr)

Un galwad i ddatrys y cwbl. Gwaith o ansawdd am bris teg.


Cysylltwch â Jac ar – 07933603131

neu trwy e-bost – jacbonner@gmail.com

Prisiau yn cychwyn o £20 yr awr. Amcangyfrifon am ddim trwy e-bost a whatsapp

# Croesair

## gan Sian Lewis




**ATEBION CROESAIR MAWRTH: Ar draws** 7 gwrido 8 arwain 9 bwli 10 estyniad 11 cledrau 12 aberth 15 gysur 17 gwasgedd 20 pilipala 22 reis 23 didaro 24 Trefin
**I lawr** 1 cwrwgl 2 eiliadau 3 nofelau 4 Haiti 5 Iwan 6 Nid aur 13 bys troed 14 llwyau te 16 y Cilie 18 Elidir 19 carob 21 Ifan **Geiriau cudd:** Cenhinen Bedr

**ENILLYDD CROESAIR:** Llongyfarchiadau i enillydd croesair rhifyn Mawrth sef Nia Richards, Llanrhystud. Bydd yn derbyn y tocyn llyfr gwerth decpunt fel arfer.

**Ar ôl i chi lenwi'r croesair, fe fydd y llythrennau yn y rhes uchaf a'r llythrennau yn y rhes isaf yn sillafu enw sy'n gysylltiedig â'r Pasg (3 gair). Anfonwch yr enw at y.ddolen@gmail.com neu drwy'r post i Gelli Aur, Cwrt y Cadno, Llanilar SY23 4PS erbyn 16 Ebrill. Mi fydd yr atebion cywir yn mynd i'r het a'r enillydd yn derbyn tocyn llyfr gwerth decpunt.**

**Ar draws**

7. Rhaglen deledu: ----- - Rownd (5,1)
8. Doedd dim cyfle i ni ------ capel nac eglwys yn ystod y cyfnod clo. (6)
9. Afon sy'n rhan o enw Eglwys Gadeiriol yn y gogledd (4)
10. Prifddinas Hawaii (8)
11. Yn union yr un fath â rhywun: yr -- ----- (2,5)
12. Y gem sy'n cael ei gynhyrchu gan wystrys (1,4)
15. Barddoniaeth: cerdd ----- (5)
17. Y tir sydd heb ei droi na'i aredig (1,6)
20. Os ydych chi am weld abaty yn ymyl Dinbych-y-Pysgod, hwyliwch - ---- ---. (1,4,3)
22. Syllu (4)
23. Rhywun profiadol iawn (3,3)
24. Does dim parch i broffwyd yn -- ---- ei hun. (2,4)

**I lawr**

1. Aderyn: glas y ------ (6)
2. Yn cyd-fynd (2,6)
3. Fe --- ---- ar fryn unwaith eto. (3,4)
4. Yr hen a ŵyr, yr ----- a dybia. (5)
5. *Ilan* yn troi yn indigo (Anagram) (4)
6. Dyn bonheddig (6)
13. ---- --- - groes: pentref yng Ngheredigion (4,3,1)
14. Y man pellaf y gallwch chi weld (1,6)
16. Efallai bod Huw Puw a'i griw yn sefyll fan hyn wrth hwylio o Bortinllaen. (2,1,3)
18. Harri'r ------, mab Harri Tudur (6)
19. Beibl - ---- o bobl y byd. (1,4)
21. - --- Du laddodd draean o'r boblogaeth yn 1349. (1,3)

# Penblwydd hapus



Pen Blwydd Hapus i Ifan Pugh, Tŷ Gwyn, Llangwyryfon oedd yn 6 oed ar 13 Mawrth. Llawer o gariad oddi wrth y teulu i gyd.



Pen Blwydd Hapus i Cai Siôn Evans a fydd yn flwydd oed ar 12 Ebrill, ŵyr Donald a Gwenda Evans, Rhandir, Llanafan.



Pen Blwydd Hapus i Tirion Vita Presacane o Bow Street a fydd yn 7 oed ar 19 Ebrill. Mae Tirion yn wyres i Joy a Hywel Jones, Llanrhystud.

# Persbectif ar y Papurau Bro

Y peth pwysicaf i'w ddweud yn syth yw bod ein papurau bro wedi gwneud cyfraniad aruthrol o bwysig dros y blynyddoedd, ac yn dal i wneud. Darparu newyddion a rhannu gwybodaeth yn deg ac yn gyfrifol yw hanfod y busnes. Ac mae'r busnes hwnnw yn fwy gwerthfawr nag erioed.

Dros y blynyddoedd, bu ambell gydweithiwr yn snobyddlyd iawn o ran newyddion 'lleol'. Peth afiach yw hynny. Mae newyddion o bob math yn gallu bod yn bwysig neu'n ddiddorol neu'n ddefnyddiol, boed leol ai peidio. Mae deunydd 'newyddion' yn cynnwys sbectrwm eang iawn o weithgaredd a gwybodaeth.

Cofiaf yn glir yr adeg pan sylweddolais beth yw gwerth newyddion bro. Ym mis Medi 1974 roedd cyffro mawr yn ardal dwyrain Caerfyrddin a gorllewin Morgannwg. Roeddem yn aros am lansiad radio masnachol cyntaf Cymru, sef Sain Abertawe. Digwyddiad o bwys oedd hwnnw, nid yn unig i'r gymuned leol, ond yn sicr hefyd i bobol fel fi a'u diléit yn y maes darlledu a newyddiadura. Gwasanaeth 'dwyieithog' a gafwyd, a hynny yn orfodaeth arnynt oherwydd balans ieithyddol y dalgylch. Roedd mwyafrif y rhaglenni yn Saesneg, wrth gwrs, gyda bwletinau newyddion yn Gymraeg yn ystod y dydd, a rhaglenni Cymraeg gyda'r nos. Pwysigrwydd y lansiad oedd bod pobl ddim yn gaeth bellach i wasanaethau BBC Cymru a HTV Cymru. Bu'r orsaf newydd yn ysgubol o lwyddiannus, a rhan o'r gyfrinach oedd mentro i fewn i fywydau pobl yn yr ardal a cheisio deall beth oedd yn eu diddori a'u plesio a'u cythruddo.

Ym 1977 ymddangosodd Radio Cymru, a Radio Wales y flwyddyn ganlynol. Ceid elfennau lleol yn y gwasanaethau hynny, ond gorsafoedd cenedlaethol yw'r ddwy, a'u pwrpas yn wahanol iawn i Sain Abertawe.

Roedd y papur bro cyntaf – *Y Dinesydd* – eisoes wedi cyrraedd ym 1973, gan lansio cyfnod o dwf cyffrous. I mi, profwyd yn syth fod newyddion ar lefel leol yn beth gwerthfawr iawn o safbwynt cynnal cymuned, gan alluogi pobl i rannu gwybodaeth a rhannu straeon. Heb wasanaeth felly, mae cymunedau yn gallu bod yn ddigyswllt a rhanedig. Mae papurau bro yn hanfodol bwysig o ran dal cymunedau ynghyd.

Dylid nodi'n syth bod papurau lleol Cymru wedi cynnig rhywfaint o Gymraeg dros y degawdau. Roedd y *Llanelli Star* â'i golofn Gymraeg (symbolaidd) bob dydd Sadwrn. Ond yn rhy aml yr hyn a geid oedd darn ar farddoniaeth (sori, dim diddordeb) neu hanes rhyw bregethwr (cynffonllyd, fel arfer) neu rywbeth arall cwbl amherthnasol. A dyna un o'r ffactorau yn llwyddiant y papurau bro, oherwydd y bwlch enfawr yn y farchnad, y farchnad newyddion go iawn i Gymry Cymraeg. Gwasanaeth cymdeithasol nodweddiadol, felly, gan gynnig llwyfan i bobl i ddweud eu dweud, i rannu straeon, i apelio, i ofyn am gymorth, i rybuddio, i ddathlu – y cyfan yn rhan o'r broses bwysig o newyddiadura, sef chwilio am bethau diddorol, a chwilio am bethau nad yw pobol yn gwybod amdanynt.

Mae hyn yn bwysig hefyd o ran democratiaeth. Mae problem o safbwynt cael ffocws clir iawn ar waith awdurdodau lleol a chynghorwyr, a rhai cyrff cyhoeddus sy'n llai atebol nag y dylent fod. O ran iechyd democratiaeth leol, mae'r papurau bro yn gryfder, gan sôn am broblemau lleol fel cynllunio, tai, a pholisi iaith. Bellach mae nifer o'r papurau bro ar-lein, ac mae modd iddynt gyrraedd eu hetholaethau ar draws y byd.

Bu dyfodiad gwefan BBC Cymru Fyw yn gam enfawr ymlaen i ni Gymry Cymraeg. Cawn ganddo gyfuniad o'r rhyngwladol, y cenedlaethol a'r lleol. Mae S4C yn datblygu ei gwasanaeth newyddion ei hun ar-lein ar hyn o bryd, sef carreg filltir arall. Dylem weld y datblygiadau hyn yng nghyd-destun y byd newyddion ehangach. Gallwn weld byd o gyfryngau sy'n cynnig mwy o ddewis i Gymry Cymraeg, mwy o ffocws, mwy o gwestiynu, a mwy o gyfuno rhwng y lleol, y cenedlaethol a'r rhyngwladol.

Mater arall yw gofyn a oes gan y papurau bro adnoddau digonol i ateb yr her. Mae angen adnoddau dynol, technegol ac ariannol i ddatblygu cyhoeddiadau ar-lein yn broffesiynol, a'r gallu hefyd i wirio'r cynnwys yn ofalus. Mae'r gwaith presennol ym myd y papurau bro yn arwrol, ond bydd eisiau mwy o gefnogaeth er mwyn i'r sector flodeuo a thyfu i fod yn rhywbeth hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol. Llongyfarchion i bawb ar y gwaith rhagorol.

Ymlaen!

**Huw Edwards**

# Gwefan ar gyfer holl Bapurau Bro Cymru

Yn mis Mawrth 2021 lansiwyd gwefan newydd ar gyfer yr holl Bapurau Bro Cymraeg: www.papuraubro.cymru. Bwriad y wefan yw creu un man canolog lle gall ddarllenwyr hen a newydd ddarganfod gwybodaeth am yr holl Bapurau Bro Cymraeg.

Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth gyswllt a mwy ar gyfer pob un o'r 58 o Bapurau Bro Cymraeg ar draws Cymru a Lloegr sy'n dod â newyddion a gwybodaeth leol i'w cymunedau. Gallwch ddefnyddio map rhyngweithiol y wefan i ddarganfod pa bapur bro sydd ym mha ardal.

Dywed Dylan Lewis, cadeirydd Papur Bro Clonc (ardal Llanbedr Pont Steffan): 'Rŷ'n ni wedi bod angen un o'r rhain ers blynyddoedd. Mae'r Papurau Bro yn gwneud gwaith anhygoel ym mhob ardal drwy Gymru, ond mae hefyd yn braf iawn cael y teimlad ein bod yn rhan o rywbeth mwy.'

Mae'r Papurau Bro yn cael eu rhedeg gan dimau o wirfoddolwyr. Fel rhan o'r wefan, bydd llwyfan i wirfoddolwyr y Papurau Bro rannu adnoddau a chyfathrebu.

Dywed Heledd ap Gwynfor o Fentrau Iaith Cymru [MIC]: 'Rŷ'n ni'n falch iawn o fod wedi gallu cefnogi'r Papurau Bro drwy weithio ar y prosiect hwn. Gobeithiwn bydd y wefan hon yn helpu i greu seilwaith i'r Papurau Bro allu symud ymlaen gyda'i gilydd a datblygu mewn cyfnod lle mae presenoldeb digidol mor bwysig.'

Mae perthynas adeiladol wedi ei greu rhwng Mentrau Iaith Cymru â Bro360, cynllun sy'n darparu gwefannau bro i gymunedau. Trefnwyd hyfforddiant ar y cyd gan MIC a Bro360 ar gyfer gwirfoddolwyr y Papurau Bro yn ystod mis Mawrth 2021. Dywed Lowri Jones ar ran Bro360: 'Rŷ'n ni'n falch bod Bro360 wedi gallu helpu papurau bro i barhau i gyhoeddi yn ystod cyfnod heriol Covid. Edrychwn ymlaen at helpu'r papurau i ddatblygu ymhellach trwy gynnig arbenigedd cwmni Golwg ym maes newyddiaduraeth annibynnol i gynnal tair sesiwn hyfforddiant i gyfranogwyr y papurau bro dros yr wythnosau nesa.'

**DEIAN REES**
**Peintiwr ac Addurnwr**
Glannant, Stryd y Capel
Tregaron SY25 6HA
**01974 298 615**
**07900 174 699**
**(tecst yn unig)**

**HUW GRIFFITH**
**MASNACHWR COED TÂN**
Hefyd gwasanaethau ffensio a thrin coed
**ffôn: 01974 241529**

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio, Chwynu a Dal Gwaddod**
**Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol**
**Ffoniwch Meirion: 07792457816 / 01974 261758**
**e-bost: mynachhandyman@yahoo.com**

**DYLAN TANDY**
**01974 272 453**
**07890 946 555**
MUSTANG GUTTER SYSTEM
dylantandy310@hotmail.co.uk
**GWTERI ALWMINIWM DI-DOR**
SAER COED . GWAITH TO . ADEILADWR . ASIEDYDD

# Mynd am dro: darganfod yr ardal

## Cwm Wyre

Ar ôl stwffio'n hunain ar dwrci, y trimins a'r pwdin Dolig, roedd angen symud y coesau! Felly off â Dafydd, Lynn a fi am dro i lawr drwy Gwm Wyre.

Diolch i Lynda, cawsom ein gollwng ar yr hewl fach rhwng Pencwm Isaf a Pencwm Canol. Roedd hi'n weddol rwydd ffeindio dechrau'r llwybr sy'n disgyn drwy'r coed tal mewn i Gwm Wyre. Mae'r llwybr yn amlwg, ond angen cadw llygad dan droed rhag baglu. Rhai o'r coed wedi cwympo ond ddim yn ormod o rwystr.

Ar ôl sbel fach, dyma ni mas o'r coed, gyda golygfa braf o Gwm Wyre – cwm diarffordd, tawel, coediog.

Dod ar draws hen, hen fwthyn bach y mae rhywun wrthi'n ei adfer – jyst fel rhywbeth mas o Sain Ffagan.

Wedyn dechrau crafu pen am ba lwybr i'w ddilyn, ond diolch byth ymddangosodd Eirwen a'i theulu o Tŷ Newydd! Ar ôl sgwrs o bellter cymdeithasol, dyma ni'n eu dilyn nhw – edrych fel 'sen nhw'n nabod y ffordd.

Dyma'r llwybr yn dringo eto nes inni gael golygfa dda dros ffermydd Moelifor a Glancarrog. Ymhen tipyn daethom at olygfa fendigedig dros bentre Llanrhystud a mas i'r môr.

Wedyn tipyn o lithro wrth i'r llwybr ddisgyn yn serth. Diolch byth am ganllawiau pren oedd wedi eu gosod ar y ffordd lawr neu bydden ni wedi bod ar lawr yn y mwd! Daeth y llwybr mas i'r hewl ar bwys Frondeg sy'n arwain mewn i Lanrhystud.

Troi off hwnnw i gerdded lan trwy gae Moelifor, heibio Ffospilcorn a Panteg a nôl i Glancarrog. Popeth yn iawn nes i Lynn ddiflannu lan i'w phen-glin mewn pwll o fwd ar y llwybr!

Pawb wedi joio mas draw, a cyfle i ddarganfod darn bach newydd o'r ardal oedd mor agos i gartre ond neb ohonom wedi mentro yno o'r blaen.

**Elin Morris**












P.T PRESERVATION Ltd
Arbenigwr trin tamprwydd mewn welydd, pryfed mewn pren, pydredd pren a gosod clymau wal mewn welydd dwbl.
GWASANAETH CYMRAEG | CWMNI LLEOL
PETER TANDY
01974 272 310 | 07866 078 221

ALED ELLIS
ARWERTHWYR . PRISWYR
ASIANTWYR TAI
16 Ffordd y Môr, Aberystwyth
**Rhif Ffôn** 01970 626160
**e-bost** sales@aledellis.com

Cware ac Olew Trefigin
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
TYWOD
GRAEAN
CERRIG
BLOCS
DERV
TANWYDD TŶ
DISEL FFERM
LIWB OLEW

www.trefigin.cymru
(01239) 881282
(01239) 881630

Lloyd Herbert & Jones
Tir Fesurwyr Siartiedig
Arwerthwyr
a Stâd Fasnachwyr
10 Y Ffynnon Haearn
ABERYSTWYTH
Ffôn 01970 624328 neu 612559

ROBERT RATTRAY
CIGYDD TEULU
8 Y Ffynnon Haearn
Aberystwyth
*Cig o ffermydd lleol.*
*Galwch am dyfynbris i'r rhewgell.*
Ffôn: 01970 615353

# Blwyddyn dan glo

Efallai bod ni ddim yn mynd i unman, ond mae amser dal yn hedfan! Mae'n anodd credu bod blwyddyn ers i Boris Johnson gyhoeddi'r clo mawr cyntaf yn ôl ym Mawrth 2020. Pwy feddylie y bydden ni'n parhau dan gyfyngiadau 365 diwrnod yn ddiweddarach, er gwaetha rhyw faint o lacio dros yr haf! Roedd y clo cyntaf yn brofiad newydd gwahanol i lawer ohonon ni, cyfle i arafu, clirio, gwerthfawrogi natur a'n milltir sgwâr a mwynhau amser teulu. Cafwyd tywydd braf godidog a ninnau'n lwcus iawn ein bod ni'n byw le ni'n byw. Tipyn anoddach fu'r ail gyfnod clo ar ddechrau eleni gyda'r nosweithiau'n dywyll a bwrlwm y Nadolig gwahanol (oherwydd cyfyngiadau) wedi pasio. Dyddiau mwll a diflas a diffyg gweld pen draw i'r holl sefyllfa. Ond daeth arwyddion y gwanwyn i ddechrau codi calon a'r brechlyn a gobaith am ffordd allan o'r pandemig. Dyma roi cyfle i rai o drigolion ardal Y DDOLEN fyfyrio ar ei blwyddyn nhw dan glo.

### Ffion Evans, Dolifor, Llanrhystud

*Oes yna rhywbeth am y cyfnod yr ydych wedi'i fwynhau?*
Gorfod gadael gwaith yn gynnar cyn 4 o'r gloch! Fel athrawes, cyn y cyfnod clo roeddwn wedi dod mewn i'r patrwm o aros a gweithio yn yr ysgol hyd tua 6 bob nos. Mae gorfod gadael yr ysgol yn gynnar a chyrraedd adref yn gynt wedi rhoi mwy o gydbwysedd i fywyd. Mae diwrnod yn teimlo'n hirach a mwy o amser i wneud pethau gwahanol.




Mae Ffion wedi dewis y llun yma fel un fydd yn ei hatgoffa o'r cyfnod rhyfedd dros y flwyddyn ddiwethaf a'r gath yn gwmni iddi wrth baratoi gwaith ysgol i'r plant adre.

*Beth ydych chi wedi gweld ei eisiau fwyaf?*
Medru cwrdd â ffrindiau am baned a chlonc yn un o gaffis y dre.

*Beth ydych chi'n edrych ymlaen at allu ei wneud fwyaf yn 2021 wrth i'r cyfyngiadau lacio?*
Pacio cês a mynd ar wyliau. I unrhyw le!!!

### Cyfaill Y DDOLEN o bentref Llanilar

*Sut flwyddyn ydych chi wedi'i chael dan glo?*
Blwyddyn o orfod meddwl a ydi hi'n gywir i wneud ambell beth neu a fyddwn i'n torri'r rheolau wrth ei wneud. Blwyddyn o orfod dibynnu'n drwm ar sgyrsiau ffôn i gadw cysylltiad â theulu a chyfeillion yn hytrach nag ymweld yn bersonol.

*Oes yna rywbeth am y cyfnod yr ydych wedi'i fwynhau?*
Yn ystod misoedd y gaeaf roedd hi'n braf iawn cael tynnu'r llenni a gwybod nad oedd angen mynd allan i'r tywyllwch na'r oerni! Gwneud ambell jig-so heriol iawn.

*Beth ydych chi wedi gweld ei eisiau fwyaf?*
Cael cydaddoli wyneb yn wyneb. Diolch am bob oedfa ar Zoom ac ar y We ond fedran nhw ddim bod cystal ag addoli yng nghwmni'n gilydd yn bersonol.

*Beth ydych chi'n edrych ymlaen at allu gwneud fwyaf yn 2021 wrth i'r cyfyngiadau lacio?*
Medru ymweld â'r teulu, ffrindiau ac aelodau'r capel; medru gwahodd a chroesawu pobl i'r tŷ a chynnig paned yn lle sgwrsio ar garreg y drws; medru cydaddoli wyneb yn wyneb; cael rhoi'r gorau i wisgo gorchudd wyneb sydd yn codi niwl dros sbectol.

### Alun Lloyd Jones, Llanfarian

*Sut flwyddyn ydych chi wedi'i chael dan glo?*
Blwyddyn ofidus, rwystredig, brysur efo cyfarfodydd ar lein, a byw mewn gobaith i'r haul godi arnom unwaith eto.

*Oes yna rywbeth am y cyfnod yr ydych wedi'i fwynhau?*
Yr amser i feddwl, i gofio am y gorffennol, ac i gynllunio dyfodol gwell i'm teulu (gobeithio)! Mwy o amser i ddarllen fy hoff lyfrau.

*Beth ydych chi wedi gweld ei eisiau fwyaf?*
Cymdeithasu efo'm ffrindiau dros gwpaned o goffi, ymweld â'r teulu, teithio o fewn Cymru, ac ymhellach – er enghraifft tramor.

*Ddysgoch chi rywbeth newydd yn ystod y flwyddyn?*
Sut i ddefnyddio Zoom, Skype, Teams, ac yn y blaen!!

*Ydi'r flwyddyn ddiwethaf wedi newid eich ffordd o feddwl? Sut?*
I gydymdeimlo mwy efo pobl sydd yn dioddef, ac i helpu mewn unrhyw fodd posib.

*Tri gair sy'n disgrifio eich blwyddyn dan glo ...*
RHWYSTREDIG, PRYDERUS, HIRAETHUS.

*Beth ydych chi'n edrych ymlaen at allu'i wneud fwyaf yn 2021 wrth i'r cyfyngiadau lacio?*
Teithio i ymweld â'r wyrion, a'u teuluoedd, ac aelodau eraill o'r teulu – heb eu gweld am dros flwyddyn bellach. A mwy o gymdeithasu hefyd.

### Amanda ac Eifion Roberts

*Sut flwyddyn ydych chi wedi'i chael dan glo?*
Prysur! (Yn lwcus, mae gennym yr adnoddau i weithio o adre).

*Oes yna rywbeth am y cyfnod yr ydych wedi'i fwynhau?*
Dim gorfod teithio nôl a 'mlaen i'r dref mor aml.

*Beth ydych chi wedi gweld ei eisiau fwyaf?*
Bod yng nghwmni ein teulu a'n ffrindiau.

*Ddysgoch chi rywbeth newydd yn ystod y flwyddyn?*
Wedi ehangu sgiliau technoleg.

*Ydi'r flwyddyn ddiwethaf wedi newid eich ffordd o feddwl? Sut?*
Odi – ddim i gymryd pethau'n ganiataol; a sut y medrwn barhau y dulliau mae'r cyfnod clo wedi'u hamlygu i hybu gwelliant i'r amgylchedd.

*Tri gair sy'n disgrifio eich blwyddyn dan glo ...*
Prysur, prysur, prysur.

*Beth ydych chi'n edrych ymlaen at allu'i wneud fwyaf yn 2021 wrth i'r cyfyngiadau lacio?*
Cael Mam a Dad draw am ginio Dydd Sul.






# Llangwyryfon

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i deulu Mari Llwyd a fu farw ddiwedd Chwefror. Bu hi'n brifathrawes ymroddedig yn ysgol Llangwyryfon am flynyddoedd ac wedi bod yn ddylanwad positif a pharhaol ar genedlaethau o blant yr ardal. Roedd ei natur addfwyn yn treiddio trwy'r ysgol i gyd a'i gofal dros les yn ogystal ag addysg y plant yn amlwg. Cofia rhai hi yn arbennig am ei dawn i ddysgu iddynt gydadrodd nid yn unig fel plant ond fel aelodau o Ferched y Wawr hefyd. Fe ddeil lle cynnes iddi yng nghalonnau ei chyn-ddisgyblion a'u rhieni hwy.

**Diolch**
Dymuna teulu Sibrwd y Nant, Gaynor, Doug, Carys, Steff, Aled, Weronika a Gwenllian ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Mam-gu a Hen Fam-gu. Diolch.

**Llongyfarch**
Llongyfarchiadau i Megan Aur Davies, Esgair Llyn sydd wedi llwyddo mewn arholiadau piano. Derbyniodd Ragoriaeth mewn Gradd 5 theori a Theilyngdod mewn arholiad perfformio Gradd 6 o dan drefniadau'r Coleg Brenhinol. Mae hi'n ddisgybl i Carys Hannah Flynn, Cysgod y Coed. Oherwydd yr amgylchiadau presennol mae wedi bod yn anodd trefnu gwersi wyneb yn wyneb ac mae Megan wedi bod yn perffeithio a recordio'i pherfformiad ar ei phen ei hun yn ei chartref. Da iawn ti a dal ati.

Llongyfarchiadau i Ifor a Margaret Lewis, Tŷ Coch ar ddod yn dad-cu a mam-gu am y tro cyntaf. Ganwyd mab i Lowri ac Elliot yng Nghaerdydd ar 1 Mawrth. Ei enw yw George Lewis Lynn. Diolch am newyddion calonogol ar ôl gofidiau'r flwyddyn ddiwethaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Peter Tandy ar ei ymateb wrth 'adnabod y sŵn' ar raglen radio gydag Ifan Jones Evans ddechrau mis Chwefror. Roedd yn bleser ei glywed yn siarad mor huawdl am ei ddiddordebau.

**Y Cyngor Cymuned**
Nid yw'r Cyngor wedi medru cyfarfod ers chwe mis, ond trwy gyfrwng llythyron, galwadau ffôn ac e-byst daethpwyd i benderfyniad ynglŷn â dosbarthiad arian y melinau gwynt. Rhoddwyd cyfraniadau fel a ganlyn i'r canlynol – Ysgol Llangwyryfon: £2,000, Neuadd Santes Ursula: £1500, Cylch Meithrin: £750, Capel Moriah: £250, Capel Tabor: £250, Canolfan Bethel: £250, Eglwys Santes Ursula: £250, Clwb Ffermwyr Ifanc: £500, Pwyllgor y Fynwent: £500, Yr Ysgol Sul: £200, Sefydliad y Merched: £200, Merched y Wawr: £200, Y Clwb Croeso: £200, Y Clwb Garddio: £100.

Ynglŷn â rhoddion o dan S137, penderfynwyd cyfyngu'r rhoddion i'r canlynol gan na ellir rhag-weld amgylchiadau'r dyfodol – Y Ddolen: £150, Yr Ambiwlans Awyr: £100, Nyrsys Macmillan: £100, HAHAV: £100.

Yn ystod y misoedd diwethaf derbyniwyd gwybodaeth am geisiadau cynllunio – adeiladu tŷ ger Tŷ Coch, ehangu a newidiadau i Maes yr Haf, a newidiadau i Rhandir Isaf. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad i unrhyw un ohonynt.


Disgyblion yr Hafod ar Ddiwrnod Trwynau Coch.

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llangwyryfon**
*Ailagor yr Ysgol*
Ers y rhifyn diwethaf o'r Ddolen rydym wedi croesawi ein disgyblion yn ôl gyda'r criw ieuengaf (y Cyfnod Sylfaen) yn dechrau dychwelyd yn raddol o 22 Chwefror ymlaen. Ychydig wythnosau yn ddiweddarach, 15 Mawrth ymlaen, braf oedd gweld y criw hŷn (Cyfnod Allweddol 2) yn ôl hefyd.

Mae'n rhyfedd ac yn chwith meddwl ein bod wedi profi AIL gyfnod o ddisgyblion yn treulio cyfnod estynedig adref yn dysgu o bell ond mae'n hyfryd cael gweld nhw yn ôl yn eu dosbarthiadau ac yn mwynhau yng nghwmni eu cyfoedion unwaith eto.

Hydernwn y cawn fwynhau tymor llawn, di-dor yn yr ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg.

Diolch yn fawr i bob rhiant am eu cydweithrediad gyda'r dysgu o adref dros y deufis a mwy diwethaf.

*Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr*
Bu'r plant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Mawrth (ac ar yr 2il hefyd yn yr ysgol!) drwy wisgo eu dillad Cymreig ac yn gwneud amrywiol weithgareddau yn yr ysgol neu ar lein! Bu'r disgyblion yn dysgu am hanes Dewi Sant yn ogystal â gwneud gweithgareddau yn hyrwyddo Cymru a Chymreictod. Y Dydd Iau canlynol, ar 4 Mawrth nodwyd Diwrnod y Llyfr drwy wneud amrwyiol weithgareddau yn dathlu llyfrau o bob math a'r weithgaredd o ddarllen!

*Sgwad Sgwennu*
Ymunodd Cet â Sgwad Sgwennu rhithiol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 ganol y mis. Roedd y Sgwad yng nghofal y Prifardd Aneirin Karadog a bu'r plant yn brysur yn cwblhau tasgau amrywiol er mwyn annog y gwaith o farddoni. Yn dilyn y Sgwad Sgwennu anogwyd y disgyblion i fynd ati i gwblhau darn o farddoniaeth ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod T yr Urdd ym mis Mai.

*Eisteddfod Y Ddolen*
Bu llawer iawn o'r disgyblion yn brysur yn ystod y mis yn gwneud gwaith ysgrifenedig a chelf i Eisteddfod Y Ddolen.

*PC Hannah*
Bu PC Hannah yn cynnal sesiynau ar lein gyda chriw'r Hafod yn trafod amrywiol agweddau o gadw'n ddiogel – mae negeseuon PC Hannah yn rai perthnasol a phwysig iawn.

*Y Parchedig Smith*
Rydym yn parhau i dderbyn negesuon rhithiol amrwyiol oddi wrth Y Parchedig Julian Smith. Yn ystod y mis yma rydym wedi derbyn negeseuon Gŵyl Dewi, Sul y Mamau a'r Wythnos Sanctaidd.

*Diwrnod Trwynau Coch*
Roedd hi yn fôr o goch yn yr ysgol Ddydd Gwener, 19 Mawrth i nodi Diwrnod Trwynau Coch. Gwisgodd pawb gymaint o goch ag oedd yn bosib, gyda rhai wedi lliwio eu gwalltiau a'u hwynebau hefyd. Gofynnwyd am gyfraniadau i'r elusen. Roedd y cyfanswm wedi cyrraedd ychydig dan £90 erbyn diwedd y dydd.




Disgyblion yr Hendre yn eu dillad coch ar Ddiwrnod Trwynau Coch.

*Tysteb Anti Myf*
Ffarweliwyd â Myfanwy Williams fel clerc arian cinio a goruchwylydd amser cinio ddiwedd mis Rhagfyr. Yn anffodus oherwydd y cyfyngiadau nid oedd hi'n bosib i ni drefnu digwyddiad teilwng i ddiolch i Anti Myf cyn gwyliau'r Nadolig ac felly y bwriad ydy gwneud hyn cyn diwedd Tymor yr Haf (gan groesi ein bysedd y bydd hi'n bosib). Yn y cyfamser mae'r casgliad ar ei chyfer yn parhau ar agor a gellir gwneud cyfraniad drwy law Nerys Parry.

*Cydymdeimlo*
Gyda thristwch y derbyniwyd y newyddion yn ystod y mis am farwolaeth Mari Llwyd. Bu Mari yn brifathrawes ar Ysgol Llangwyryfon am nifer fawr o flynyddoedd a fe fuodd hi a'r teulu yn byw yn Tŷ'r Ysgol am gyfnod hir. Mi roedd gan bawb o fewn cymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach feddwl uchel iawn ohoni ac roedd ei chysylltiad â nifer o deuluoedd yr ardal wedi parhau dros y blynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

*Pen Blwydd Hapus*
Cyfarchion hwyr i gyn-gogyddes yr ysgol, Mrs Phyllis Bird Pantbedw a fu yn dathlu pen blwydd arbennig ganol mis Mawrth.

*Diolch*
Dymunwn estyn ein diolch i Gyngor Cymuned Llangwyryfon am ei gyfraniad ariannol hael iawn unwaith eto eleni i'r ysgol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu adnoddau digidol (gliniaduron ac iPads) at ddefnydd y disgyblion.

*Bag2School*
Fe fydd casgliad Bag2School ddechrau mis Mai – yr union ddyddiad i'w gadarnhau yn y rhifyn nesaf.

*Pasg Hapus*
Dymuniadau gorau i holl drigolion yr ardal dros gyfnod y Pasg. Mae Tymor y Gwanwyn wedi ein cyrraedd erbyn hyn a hyderwn, wrth i ni wylio'r ŵyn bach yn y caeau a'r blodau yn tyfu yn ein gerddi, y daw ychydig o 'fywyd newydd a normal' i bawb dros y misoedd nesaf. Anodd meddwl bod blwyddyn gyfan wedi pasio ers i'r ysgolion gau am y tro cyntaf a dyfodiad y cyfnod clo cyntaf. Am y tro cadwch yn iach ac yn ddiogel.

# Help ariannol i gymunedau gan y Loteri Genedlaethol

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi pobl a chymunedau drwy COVID-19. Mae grantiau wedi cael eu hehangu i helpu cymunedau ledled Cymru i edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol.

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cynnal sesiwn gymorth rithiol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer grwpiau cymunedol ac elusennau ar 26 Mai. Bydd y sesiwn yn rhoi mwy o wybodaeth i gymunedau ledled Cymru am wneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol ac yn atgyfnerthu'r blaenoriaethau ariannu newydd. Maen nhw'n arbennig o awyddus i siarad â grwpiau cymunedol nad ydynt wedi gwneud cais am grant gan y Loteri Genedlaethol o'r blaen.

Dywedodd Ruth Bates, Cyfarwyddwr Dros Dro Cymru yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, "Dydy ein rôl ni fel ariannwr gweithgaredd cymunedol erioed wedi bod mor bwysig. Rydym yma i gefnogi grwpiau cymunedol ac elusennau i gael mynediad at arian Loteri Genedlaethol. Rydym yn canolbwyntio'n arbennig ar gefnogi grwpiau i addasu, adfer a ffynnu. Mae ein timau ariannu i gyd yn gweithio gartref ac yn barod i siarad â chi am eich syniadau i gefnogi cymunedau drwy'r cyfnod digynsail hwn, a thu hwnt i hynny."

''Rydym am ariannu prosiectau sy'n bwysig i bobl a chymunedau, a gwyddom mai'r prosiectau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sydd wedi'u datblygu gan y bobl a fydd yn elwa ohonynt. Rydym hefyd yn deall bod hwn yn gyfnod heriol i sefydliadau'r trydydd sector, ac felly rydym yn cefnogi grwpiau'n rhagweithiol drwy gynnig cymorth datblygu sefydliadol."

Mae grantiau, a wnaed yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ar gael i gefnogi sefydliadau i addasu, adfer a ffynnu drwy raglenni Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol a Pawb a'i Le.

Mae Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol yn dyfarnu hyd at £10,000 ar gyfer amrywiaeth o brosiectau cymunedol, gan gynnwys prosiectau sy'n ymateb i bandemig COVID-19.

Mae Pawb a'i Le yn dyfarnu hyd at £500,000 i gymunedau gydweithio i gael effeithiau cadarnhaol ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ariannu datblygiad sefydliadol fel rhan o'r prosiect ac mae Gwiriwr Cryfderau wedi'i ddatblygu i helpu cwsmeriaid i nodi cryfderau eu cymuned er mwyn adeiladu arnynt.

Ers mis Ebrill 2020, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi dyfarnu dros £20 miliwn i elusennau a chymunedau ledled Cymru sy'n newid bywydau ac yn cynnig gobaith i lawer o'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig. Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn codi £30 miliwn bob wythnos ar gyfer achosion da ledled y DU.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r sesiwn rithiol ar ddydd Mercher, 26 Mai, cysylltwch â fflur.davies@cronfagymunedolylg.org.uk. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ariannu: http://cronfagymunedolylg.org.uk/cymru

## Colofn **Ben Lake AS**

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi ers cael fy ethol yn 2017 oedd cael y cyfle i gefnogi sioeau bach amaethyddol Ceredigion yn ystod misoedd yr haf. Roedd yn gyfle arbennig i gwrdd ag etholwyr na fyddai o reidrwydd yn cysylltu â'u Haelod Seneddol ar e-bost neu dros y ffôn, ond y bydden nhw'n ddigon hapus i fwrw'u bol neu rannu barn wrth gylch y defaid neu yn y babell grefftau, ac yn sgil hynny byddwn yn cael darlun go agos ati o'r pryderon, yr heriau a'r anghyfiawnderau sy'n wynebu ffermwyr a chymunedau cefn gwlad Ceredigion.

Mae pob un o'n sioeau amaethyddol yn chwarae rhan mor bwysig nid yn unig yn hyrwyddo'r diwydiant amaeth ond hefyd yn dathlu'r amrywiaeth gyfoethog o draddodiadau a hanes sy'n gysylltiedig â chefn gwlad. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i gymunedau ddod at ei gilydd, i gymdeithasu, i brynu a gwerthu ac i roi'r byd yn ei le. Ac mae hyn oll cyn dechrau ystyried y cyfraniad enfawr mae'r sioeau yn ei wneud i'r economi leol.

Yn anffodus, yn sgil y pandemig gorfodwyd i'r rhan fwyaf o sioeau a digwyddiadau'r sir gael eu gohirio llynedd, ac mae rhai trefnwyr sioeau yng Ngheredigon eisoes wedi cyhoeddi eu bod yn gohirio'u digwyddiadau eleni, yn cynnwys Sioe Sir Aberystwyth, Sioe Meirch Llanbed, Sadwrn Barlys Aberteifi a Sioe Llanilar.

Mae'n rhaid canmol y cymdeithasau a'r mudiadau hynny aeth ati i drefnu digwyddiadau amgen, ar lein llynedd i lenwi bwlch y sioeau arferol. Ond er bod y digwyddiadau rhithwir hyn wedi mynd rywfaint o'r ffordd i lenwi'r gwagle a adawyd, nid oes dim yn disodli'r wefr o sioeau awyr agored byw.

Gyda'r posibilrwydd o ganslo sioeau pellach eleni, rydw i ac Elin Jones wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ariannol i bob sioe amaethyddol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau ac ailgydio yn eu gwaith yn 2022. Rŷ'n ni'n credu'n gryf ei bod yn amserol i'r Llywodraeth ystyried darparu taliad grant unwaith ac am byth i bob sioe amaethyddol, waeth beth eu maint, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu goroesi'r pandemig hwn.

Waeth faint o amser bydd rhaid aros cyn medru dod ynghyd, dwi'n edrych ymlaen yn sobor i allu troedio i gae sioe a chael rhoi'r byd yn ei le gyda fy nghyd-Gardis unwaith eto.

# Waw – am Wawr!

## gan Rob Evans

Fel mae bron pawb yn y byd yn gwybod erbyn hyn dw i'n mynd allan am dro yn gynnar bob bore ac mae rhywbeth i'w weld bob tro. Dw i'n dechrau'n gynharach erbyn hyn achos mae hi'n goleuo'n gynharach bob dydd. Mae'n braf bod allan i sylweddoli hyn achos mae'n arwydd gref bod y Gwanwyn ar y ffordd – y tymor mwyaf trawiadol o'r pedwar. Cyn bo hir mi fydd y byd yn llawn lliwiau a bydd ein calonnau'n codi ac mi rydym ni i gyd angen hynny!

Ychydig o ddyddiau yn ôl, munudau cyn toriad y wawr, mi nes i gau'r drws i ddechrau ar fy nhaith. Wrth droi'r gornel gyntaf gwelais i'r awyr yn goch uwch fy mhen, stribedi o gymylau coch yn creu patrwm na all ond byd natur ei greu mor effeithiol. Dysgais nes ymlaen mai bai'r Sahara oedd hyn am fod gwyntoedd cryf wedi codi tywod i fyny i'r awyr a'i gludo'r holl ffordd i Gymru fechan.

Wrth i mi gerdded ymlaen roeddwn i'n cadw fy llygaid ar yr awyr a gweld y darlun yn datblygu. Dydy pethau fel hyn ddim yn parhau am yn hir, dim ond am ychydig o funudau. Cyn hir roeddwn wedi cyrraedd y gornel ac roedd rhaid troi fy nghefn ar yr awyr goch. O fy mlaen i rŵan roedd yr awyr yn fwy pinc ond gwelais i hefyd rywbeth oedd yn edrych fel llwybr anwedd (*vapour trail*).

Meddyliais fod hyn braidd yn od achos does dim llawer o awyrennau yn yr awyr y dyddiau yma ac roeddwn i'n syllu ar hyn er mwyn trio gweithio allan beth oedd o. Yn raddol roedd lliwiau'n datblygu a sylweddolais fy mod i'n syllu ar enfys yn ffurfio. Dyma fi'n sefyll yng nghanol y lôn yn syllu ac yn gweld y bwa yn ffurfio. Roedd y profiad yn drawiadol! Mi oeddwn i'n gallu gweld bod y goes chwith yn cyrraedd y ddaear rywle ar y traeth ond yn fwy o ddiddordeb i mi oedd ble oedd y goes dde yn cyrraedd y ddaear! Mae'n anodd credu ond roedd y goes dde yn siŵr o fod yn cyrraedd y ddaear yn fy ngardd gefn. Wel am lwc ynte! Mi fydda i'n siŵr o gofio mynd allan efo rhaw yn syth ar ôl cyrraedd adref. O'r diwedd mi fydda i'n gyfoethog dros ben.

Treuliais weddill fy nhaith yn breuddwydio am beth fyddwn i'n gallu ei wneud hefo'r holl gyfoeth. A fydda i'n cael car newydd? Na, dw i ddim yn meddwl, dw i'n ddigon bodlon efo fy nghar. Prynu tŷ newydd? Na, doedd hynny ddim yn apelio chwaith, mae'r coed afalau gwnes i eu plannu bum mlynedd yn ôl wedi aeddfedu ac yn ffrwytho. Mynd ar wyliau i'r ynys orau yn y byd? Ia, dyna be wna i a bydd gwyliau yn Sir Fôn ddim yn gostus chwaith. Sorted! Fel mae'r Sais yn dweud.

Rhywbeth i edrych ymlaen amdano ynte!

Wel roeddwn i ar y ffordd i'r cwt i nôl y rhaw pan welais dwll mawr yn y lawnt. O na! Mae rhywun wedi cyrraedd o'm mlaen i! Dyma fi'n sefyll ac yn syllu ar y twll gwag yn y lawnt, hynny yw roedd yn wag heblaw am yr amlen ar y gwaelod. Plygais i lawr i'w godi, agorais a thynnu allan neges fer.

"Annwyl Rob. Diolch am gymryd dy amser ar dy daith gerdded y bore 'ma a gobeithio nad wyt yn meindio i fi a'r tylwyth ddwyn dy drysor. Mae'n rhaid i ti gofio bod rhai pobl yn dlotach na chdi ac ein gwaith ni yw edrych ar ôl y bobl hynny.

Pob hwyl i ti, Twm Teg a'r Tylwyth"

Wel, chwarae teg i'r Tylwyth Teg ynte!


JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth

Siop Llanfarian
Dewis helaeth o nwyddau
Gwasanaeth dosbarthu i gartrefi - papurau dyddiol a.y.y.b
Ar agor bob dydd o'r wythnos
Galwch i'n gweld
01970 612 067

Afan Electrical Limited
NICEIC APPROVED CONTRACTOR · UKAS PRODUCT CERTIFICATION 118
**Gosod a chynnal systemau trydanol**
- Gosod larymau tân a'u cynnal
- Goleuadau argyfwng
- PAT (profi offer cludadwy)
- Profi ac arolygu rheolaidd
- Gosod a chynnal systemau teledu cylch cyfyng (CCTV)
- Systemau dŵr a gwresogi
- Gosod ceblau rhwydweithiau cyfrifiadurol a'u hardystio

Ffôn: 01970 630202
E-bost: enquiries@afanelectrical.co.uk

CPS CROSSWOOD PROPERTY SERVICES Ltd
**Adeiladwr Cyffredin**
Registered Heating Business · OFTEC · Gas Safe Register
- Cawodydd mynediad rhwydd - stafelloedd gwlyb
- Adnewyddu stafelloedd ymolchi
- Gwresogi olew a gwaith plymio
- Adnewyddu eiddo
- Gwaith gosod teils
- Gosod lloriau diogelwch

Ffôn: 01970 626609
E-bost: enquiries@crosswoodpropertyservices.co.uk

AFAN ABLEDD CYMRU
AFAN ABILITY WALES
**Cefnogi bywyd annibynnol ar draws Canolbarth Cymru**




&
HAMDDENA AWYR AGORED AFAN




Ffôn: 01970 615400
E-bost: sales@afanbility.wales

**Ystafell arddangos ar agor yn:**
Uned 25
Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3JQ
(Ar bwys Canolfan ailgylchu gwastraff cartref)

**Oriau agor:**
Dydd Llun - Dydd Iau: 10-7
Dydd Gwener - Dydd Sadwrn: 10-5
Dydd Sul: 10-4